

Dogfen ir Cyhoedd



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

Mrs Annwen Morgan
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

RHYBUDD O GYFARFOD	NOTICE OF MEETING
PWYLLGOR GWAITH	THE EXECUTIVE
DYDD LLUN 16 RHAGFYR 2019 10.00 o'r gloch	MONDAY 16 DECEMBER 2019 10.00 am
SIAMBR Y CYNGOR SWYDDFEYDD Y CYNGOR LLANGFNI	COUNCIL CHAMBER COUNCIL OFFICES LLANGFNI
Swyddog Pwyllgor	Ann Holmes 01248 752518 Committee Officer

AELODAU/MEMBERS

Plaid Cymru/Party of Wales

Llinos Medi Huws, Carwyn Jones, R Meirion Jones, Alun W Mummery, Robert G Parry, OBE, FRAGS, Robin Wyn Williams

Annibynnol/Independent

Richard Dew, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams

COPI ER GWYBODAETH / COPY FOR INFORMATION

I Aelodau'r Cyngor Sir / To the Members of the County Council

Bydd aelod sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith yn cael gwahoddiad i'r cyfarfod i siarad (ond nid i bleidleisio) os ydy o/hi wedi gofyn am gael rhoddi eitem ar y rhaglen dan Reolau Gweithdrefn y Pwyllgor Gwaith. Efallai bydd y Pwyllgor Gwaith yn ystyried ceisiadau gan aelodau sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith i siarad ar faterion eraill.

A non-Executive member will be invited to the meeting and may speak (but not vote) during the meeting, if he/she has requested the item to be placed on the agenda under the Executive Procedure Rules. Requests by non-Executive members to speak on other matters may be considered at the discretion of The Executive.

Please note that meetings of the Committee are filmed for live and subsequent broadcast on the Council's website. The Authority is a Data Controller under the Data Protection Act and data collected during this webcast will be retained in accordance with the Authority's published policy.

R H A G L E N

1 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Derbyn datganiadau o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem ar y rhaglen.

2 MATERION BRYN A ARDYSTIWDYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU SWYDDOG A BENODWYD GANDDI

Dim materion brys ar adeg anfon allan y rhaglen hon.

3 COFNODION (Tudalennau 1 - 10)

Cyflwyno i'w cadarnhau, gofnodion drafft y cyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 25 Tachwedd 2019.

4 BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH (Tudalennau 11 - 24)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democraidd.

5 ADOLYGIAD CANOL BLWYDDYN RHEOLI TRYSORLYS 2019/20 (Tudalennau 25 - 42)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

6 FFIOEDD A THALIADAU 2020/21

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

7 NEWIDIADAU I'R CYFANSODDIAD I ADLEWYRCHU AILSTRWYTHURO MEWNOL (Tudalennau 43 - 56)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro.

PWYLLGOR GWAITH

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Tachwedd, 2019

PRESENNOL:	Y Cynghorydd Llinos Medi (Cadeirydd) Y Cynghorydd Ieuan Williams (Is-gadeirydd) Y Cyngorwyr R. Meirion Jones, Alun Mummery, R.G. Parry, OBE FRAGS, Dafydd Rhys Thomas, Robin Williams
WRTH LAW:	Prif Weithredwr Dirprwy Brif Weithredwr Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc (ar gyfer eitem 10) Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Pennaeth Gwasanaethau Democraidd (ar gyfer eitem 4) Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid (ar gyfer eitem 5) Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad (ar gyfer eitem 5) Prif Swyddog Datblygu (Datblygiad Economaidd) (THJ) (ar gyfer eitem 11) Swyddog Pwyllgor (ATH)
YMDDIHEURIADAU:	Dim
HEFYD YN BRESENNOL:	Y Cyngorwyr Glyn Haynes, Dylan Rees.

1. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Ni chafwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

2. MATERION BRYN A ARDYSTIWIYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU SWYDDOG A BENODIYD GANDDO

Dim i'w hadrodd.

3. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cyflwynwyd i'w cymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith – cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 28 Hydref, 2019.

Penderfynwyd cadarnhau cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 28 Hydref, 2019 fel rhai cywir.

4. BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyflwynwyd i'w ystyried – adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democraataidd yn ymgorffori Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith am y cyfnod rhwng Rhagfyr 2019 a Gorffennaf 2020 a nodwyd y newidiadau a ganlyn -

- **Eitemau Newydd**
 - Eitem 6 – Anableddau Dysgu – Trawsnewid Cyfleoedd Gofal Dydd (Cam 1: Caniatâd ar gyfer y Broses Ymgynghori) (ar gyfer cyfarfod 27 Ionawr, 2019)
 - Eitem 27 – Anableddau Dysgu – Trawsnewid Cyfleoedd Gofal Dydd (Cam 2: Adrodd yn ôl ar ganlyniad y broses ymgysylltu ac opsiynau ar gyfer trawsnewid) (ar gyfer cyfarfod 27 Ebrill, 2020)
- **Cyfarfodydd Ychwanegol**
 - 13 Ionawr, 2020 – cwblhau'r cynigion cychwynnol drafft ar gyfer cyllideb 2020/21 ar gyfer ymgynghori yn eu cylch
 - 2 Mawrth, 2020 – Y cynigion terfynol ar gyfer cyllideb 2020/21 ar gyfer eu hargymell i'r Cyngor Sir ynghyd ag eitemau eraill yn ymwneud â Chyllideb 2020/21.

Nododd y Pwyllgor Gwaith – oherwydd y llithriad yn amserlen Llywodraeth Cymru ar gyfer cyhoeddi'r setliadau amodol a therfynol i lywodraeth leol ar gyfer 2020/21, bod y llinell amser sydd ar gael i awdurdodau lleol yng Nghymru ddrafftio, ymgynghori ynghylch a gosod eu cyllidebau ar gyfer 2020/21, yn llawer iawn mwy heriol. Felly, oherwydd y cyfyngiadau amser yn ogystal â'r amserlen statudol sydd ar gael i gynghorau osod a chymeradwyo eu cyllidebau, mae'n debyg y bydd y broses o osod y gyllideb ar gyfer eleni'n wahanol i'r broses ar gyfer y blynyddoedd diwethaf gan olygu y bydd yn rhaid i'r Cyngor dderbyn y wybodaeth sydd ei hangen arno i redeg ei weithgareddau o'r flwyddyn ariannol newydd ym mis Ebrill, 2020 cyn gynted ag sy'n bosibl.

Penderfynwyd cadarnhau Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith am y cyfnod o Ragfyr, 2019 hyd at Gorffennaf, 2020 fel y'i cyflwynwyd.

5. ADRODDIAD MONITRO'R CERDYN SGORIO - CHWARTER 2 2019/20

Cyflwynwyd er sylw'r Pwyllgor Gwaith – adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid yn ymgorffori'r Cerdyn Sgorio Corfforaethol ar gyfer Chwarter 2, 2019/20.

Dywedodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Busnes Corfforaethol, bod Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus (MAC) penodol pellach mewn perthynas â Rheoli Gwastraff wedi cael eu cyflwyno gan Data Cymru ers i'r Pwyllgor Gwaith ystyried yr adroddiad ar gyfer Chwarter 1 y Cerdyn Sgorio ym mis Medi, 2019. Mae'r rhain yn cadarnhau mai'r Awdurdod hwn unwaith eto sydd â'r cyfraddau ailgylchu uchaf yng Nghymru sy'n ei roi ymysg y goreuon yn y byd o ran lefel y gwastraff domestig y mae'n ei ailgylchu. Cyfeiriodd yr Aelod Portffolio at bwyntiau allweddol eraill yn adroddiad Chwarter 2 fel a ganlyn -

- Mae 85% o'r dangosyddion perfformiad yn parhau i berfformio uwchlaw'r targed neu o fewn goddefgarwch 5% o'u targedau sy'n cymharu'n ffafriol â'r sefyllfa yn Chwarter 2, 2018/19. Mae 5 o ddangosyddion yn tan-berfformio (yn ymddangos yn GOCH neu'n AMBR ar y Cerdyn Sgorio) yn y Gwasanaethau Tai, Plant a Chynllunio – yn yr adroddiad, nodir y rhesymau pam fod agweddau o'r gwasanaethau hyn yn tan-berfformio ac amlinellir y mesurau gwella sy'n cael eu gweithredu er mwyn codi perfformiad yn y chwarter nesaf.

- Mae lefelau presenoldeb yn y gwaith ar eu huchaf ers Chwarter 2 2017/18 ac yn ymddangos yn WYRDD gyda pherfformiad o 3.96 o ddiwrnodau wedi eu colli fesul gweithiwr ALIC yn erbyn targed o 4.48 o ddiwrnodau wedi eu colli fesul gweithiwr ALIC.
- Mae'r strategaeth ddigidol wedi parhau i gael ei gwireddu yn ystod Chwarter 2 gyda nifer y defnyddwyr cofrestredig wedi mwy na dyblu o gymharu â'r 5,000 a welwyd ar ddiwedd Chwarter 2, 2018/19.
- O ran rheolaeth ariannol, yn seiliedig ar wybodaeth perfformiad Chwarter 2, rhagamceni'r y bydd gorwariant o £1.935m ar gyllideb refeniw'r Cyngor ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ym mis Mawrth 2020 a hynny'n bennaf oherwydd y gorwariant yn y Gwasanaethau Oedolion o ganlyniad i'r cynnydd yn y galw am y gwasanaeth sydd yn heriol ac yn anodd i'w ragweld. Ceir gwybodaeth fanylach am hyn yn yr adroddiad ar fonitro'r gyllideb.
- Ar y cyfan, mae'r adroddiad yn galonogol iawn ac yn adlewyrchu ymrwymiad y Cyngor i wella ei wasanaethau'n barhaus ac i gyflawni ei amcanion.

Roedd y Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad yn cytuno â dadansoddiad yr Aelod Portffolio a dywedodd fod y Cyngor, oherwydd ei ymagwedd tuag at reoli perfformiad, yn gallu dangos i ddinasyddion Ynys Môn ei fod yn awdurdod sy'n cyflawni ac y ceir tystiolaeth benodol yn hyn o beth oherwydd mai'r awdurdod hwn sy'n perfformio orau yng Nghymru ac ym Mhrydain am ailgylchu.

Soniodd y Cynghorydd Dylan Rees, Is-gadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol am y drafodaeth a gafwyd yn y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar 21 Tachwedd, 2019 ar Ch2 y Cerdyn Sgorio gan ddweud fod y Pwyllgor yn croesawu canlyniadau'r Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus gan Data Cymru mewn perthynas â Rheoli Gwastraff yn nodi eu bod, unwaith eto, yn rhoi Ynys Môn ar frig y gynghrair ailgylchu yng Nghymru ac ymhellach draw; roedd y Pwyllgor hefyd yn croesawu'r ffigyrau mewn perthynas â phresenoldeb yn y gwaith ar gyfer Chwarter 2; roedd y Pwyllgor wedi gofyn am ddadansoddiad pellach ynglŷn â'r agweddau sy'n tan-berfformio yn y gwasanaethau tai, plant a chynllunio a chafodd sicrwydd fod y materion hyn yn cael sylw. Roedd y Pwyllgor wedi nodi ymhellach fod cyllidebau'r Gwasanaethau Oedolion dan bwysau sylweddol oherwydd y galw cynyddol ac roedd yn fodlon y bydd y Panel Sgriwtini yn parhau i graffu perfformiad ariannol yn y maes hwn yn fanwl. Wedi ystyried yr holl wybodaeth a gyflwynwyd, roedd y Pwyllgor wedi penderfynu argymhell i'r Pwyllgor Gwaith ei fod yn derbyn y mesurau lliniaru fel y cânt eu hamlinellu yn yr adroddiad mewn perthynas ag agweddau perfformiad yn y Gwasanaethau Tai, Plant a Chynllunio a'r craffu parhaus o berfformiad ariannol gyda phwyslais ar, a chefnogaeth ar gyfer y gwasanaethau hynny sydd dan bwysau.

Wrth nodi'r wybodaeth a gyflwynwyd a'r darlun positif o berfformiad y mae'n ei adlewyrchu, mynegodd y Pwyllgor Gwaith ei werthfawrogiad o waith a pherfformiad dydd i ddydd staff y Cyngor a oedd yn sylfaen i'r canlyniadau calonogol yn Chwarter 2. Roedd y Pwyllgor Gwaith hefyd yn ddiolchgar i drigolion Ynys Môn am chwarae eu rhan i helpu'r Awdurdod gynnal ei statws fel y perfformiwr gorau o ran ailgylchu.

Penderfynwyd –

- **Derbyn y Cerdyn Sgorio am Chwarter 2 2019/20 gan nodi'r meysydd y mae'r Uwch Dim Arweinyddiaeth yn eu rheoli er mwyn sicrhau gwelliannau i'r dyfodol fel y'u crynhoir yn yr adroddiad, a**
- **Chefnogi'r mesurau lliniaru fel y'u hamlinellir yn yr adroddiad.**

6. MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW – CHWARTER 2 2019/20

Cyflwynwyd er sylw'r Pwyllgor Gwaith – adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 yn nodi perfformiad ariannol gwasanaethau'r Cyngor ar ddiwedd Chwarter 2 blwyddyn ariannol 2019/20.

Yn seiliedig ar y wybodaeth ar ddiwedd Chwarter 2, dywedodd yr Aelod Portffolio Cyllid mai'r sefyllfa ariannol gyffredinol a ragamcenir ar gyfer 2019/20 gan gynnwys Cyllid Corfforaethol a chronfa'r Dreth Gyngor yw gorwariant o £1.935m sy'n cyfateb i 1.43% o gyllideb net y Cyngor ar gyfer 2019/20. Mae pwyntiau penodol i'w nodi'n cynnwys yr isod –

- Mae'r ffigyrau ar gyfer Chwarter 2 yn nodi pwysau sylweddol o ran y galw am wasanaethau yn ystod 2 chwarter cyntaf y flwyddyn yn y Gwasanaeth Oedolion (manylion ym mharagraffau 3.2.2 a 3.2.3 yr adroddiad). Roedd gorwariant o £963k yn y gwasanaeth ar gyfer y cyfnod gyda rhagamcan y byddai £1,214k (4.82%) o orwariant ar gyfer y flwyddyn a hynny'n bennaf oherwydd 20 o achosion newydd gyda 7 yn unig o'r rheiny'n golygu gwariant ychwanegol oddeutu £700k gyda chyfanswm y costau ychwanegol oddeutu £960k. Mae'n bwysig felly nodi sut y gall cynnydd cyflym yn nifer yr achosion ynghyd â'r math o ddarpariaeth ddwys a chymhleth sydd yn aml yn gysylltiedig â'r achosion hyn gael effaith ar sefyllfa ariannol y Gwasanaethau Oedolion ac ar sefyllfa gyllidebol y Cyngor yn gyffredinol.
- Dygwyd sylw at y ffaith fod ymrwymiad ar y Cyngor i dalu tâl gwyliau i staff llanw a hynny'n seiliedig ar yr amser y maent wedi ei weithio'n ôl-ddyddiedig i 2015. Amcangyfrifir y bydd hyn yn costio £94k ynghyd ag ar-gostau. Oherwydd y byddai hynny'n rhoi cyllidebau'r ysgolion dan bwysau pellach, argymhellir y gellid, gyda chaniatâd y Pwyllgor Gwaith, ariannu'r costau hyn o'r Gronfa Gyffredinol sydd wedi cynyddu £479k oherwydd bod 50% o'r gyllideb graidd o ysgolion yr oedd y Cyngor eisoes yn ei ddarparu ar gyfer costau cynyddol pensiynau athrawon wedi cael ei ddychwelyd oherwydd bod Llywodraeth Cymru bellach yn rhoi grant i'r Cyngor i gwrdd â'r costau hyn. Mae 50% o'r gwarged yn cael ei gadw gan yr ysgolion a 50% yn cael ei ddychwelyd i'r Gronfa Gyffredinol sy'n golygu bod mwy o gapasiti yn y Gronfa Wrth Gefn Gyffredinol i ariannu'r costau hyn sy'n gysylltiedig ag ysgolion.

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 at gasglu'r Dreth Gyngor ac effaith y cynnydd yn y premiwm ar dai gwag tymor hir a nifer y tai gwag ar yr Ynys sydd, yn ei dro, wedi arwain at ostyngiad yn yr incwm y mae'r Cyngor yn ei gael o bremiwm y Dreth Gyngor fel yr adlewyrchir hynny ym mharagraff 5.1 yr adroddiad oherwydd bod perchenogion tai gwag yn cymryd camau i wneud i ffwrdd â'u hymrwymiad drwy gael gwared ar eu heiddo. Mae'r effaith yn cael ei hesbonio'n gliriach yn yr adroddiad dan eitem 9 sy'n ymwneud â Sylfaen y Dreth Gyngor am 2020/21.

Wrth nodi'r wybodaeth a gyflwynwyd, nododd y Pwyllgor Gwaith hefyd, serch y ffaith y gall nifer gostyngol o dai gwag / ail gartrefi olygu llai o incwm i'r Cyngor, mae premiwm uwch y Dreth Gyngor ar ail gartrefi a thai sydd wedi bod yn wag yn y tymor hir yn diwallu ei brif bwrpas, sef dod â mwy o dai gwag yn ôl i ddefnydd. Mewn perthynas â'r gorwariant rhagamcanedig ar Gyllideb Refeniw 2019/20, nododd y Pwyllgor Gwaith ymhellach y bydd angen i'r pwysau ariannol yn y Gwasanaethau Oedolion gael eu monitro'n agos.

Penderfynwyd –

- **Nodi'r sefyllfa a amlinellir yn Atodiadau A a B yr adroddiad yng nghyswllt perfformiad ariannol yr Awdurdod hyd yma a'r alldro disgwylidiedig ar gyfer 2019/20.**
- **Nodi'r crynodeb o'r cyllidebau wrth gefn ar gyfer 2019/20 fel y manylir arnynt yn Atodiad C yr adroddiad.**

- **Nodi'r sefyllfa mewn perthynas â'r rhaglenni buddsoddi i arbed yn Atodiad CH.**
- **Nodi'r sefyllfa o ran arbedion effeithlonrwydd 2019/20 yn Atodiad D.**
- **Nodi'r modd y caiff costau staff asiantaeth ac ymgynghorwyr eu monitro yn 2019/20 yn Atodiadau DD, E ac F.**
- **Cymeradwyo'r defnydd o Gronfa Wrth Gefn Pensiynau Ysgolion i gyllido'r tâl gwyliau sy'n ddyledus i staff llanw ysgolion ac sy'n dyddio'n ôl i Ragfyr, 2015 ar gost amcangyfrifedig o £94k ar hyn o bryd ynghyd ag argostau, sef cyfanswm oddeutu £110k yn fras.**

7. MONITRO'R GYLLIDEB GYFALAF - CHWARTER 2, 2019/20

Cyflwynwyd er sylw'r Pwyllgor Gwaith – adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 yn nodi perfformiad y Gyllideb Gyfalaf am ail chwarter blwyddyn ariannol 2019/20.

Dywedodd yr Aelod Portffolio Cyllid bod gwariant gwirioneddol y gronfa gyffredinol at ddiwedd yr ail chwarter yn 120% o'r gyllideb a broffiliwyd er mai dim ond 22% o'r gyllideb flynyddol sydd wedi'i wario hyd yma. Mae hyn yn gyson â'r patrwm arferol, lle mae'r rhan fwyaf o'r gwariant ar gynlluniau cyfalaf yn digwydd tuag at ddiwedd y flwyddyn ariannol. Mae gwaith ar rai cynlluniau cyfalaf wedi hen ddechrau gyda'r rhan fwyaf o'r gyllideb a broffiliwyd ar gyfer Chwarter 2 wedi'i gwario tra bod eraill y mae'r gwariant wedi ei broffilio tuag at ddiwedd y flwyddyn ariannol eto i gychwyn. Mae nifer o gynlluniau'n cael eu hariannu drwy grantiau cyfalaf yn 2019/20 ac mae'r adroddiad yn darparu diweddariad ar statws y cynlluniau hynny. Mae ymrwymadau ariannu ychwanegol y gofynnir am ganiatâd ar eu cyfer yn cynnwys yr isod –

- Mae'r cyfrif terfynol ar gyfer atgyweirio Neuadd y Farchnad wedi'i gytuno gyda'r contractwr ac wedi arwain at yr angen am £75k ychwanegol a fyddai'n cael ei ariannu o dderbynebion cyfalaf.
- Mewn perthynas â Chynllun Lliniaru Rhag Llifogydd Pentraeth, bydd angen i'r Cyngor ddarparu cyllid cyfatebol ychwanegol o £20k (cyfanswm y cyllid cyfatebol yn £50k yn hytrach na £30k) i'w ariannu o dderbynebion cyfalaf.
- Mae'r Cyngor wedi llwyddo i gael grant o £40k gan Lleuedd ar gyfer Chwaraeon ('Places for Sport') i uwchraddio'r offer ffitrwydd yng Nghanolfan Hamdden Plas Arthur. Cyfanswm cost y cynllun yw £130k a bydd y Cyngor yn talu'r £90k sy'n weddill drwy fenthyciad di-gefnogaeth.
- Mae'r Cyngor hefyd wedi llwyddo i sicrhau grant gwerth £72k o'r Gronfa Gydweithredol i addasu'r cwrt tennis yng Nghanolfan Hamdden David Hughes yn gae 3G. Cyfanswm cost y cynllun yw £80k a bydd angen i'r Cyngor gyfrannu £8k o arian cyfatebol a hynny o dderbyniadau cyfalaf.

Penderfynwyd -

- **Nodi'r cynnydd o ran gwariant a derbyniadau yn erbyn cyllideb gyfalaf yn Chwarter 2 2019/20.**
- **Cymeradwyo dyrannu £75,000 yn ychwanegol tuag at gynllun cyfalaf Neuadd y Farchnad yn unol â pharagraff 3.1.1 yr adroddiad.**
- **Cymeradwyo £90,000 o fenthycia digefnogaeth i uwchraddio offer ffitrwydd yng Nghanolfan Hamdden Plas Arthur yn unol â pharagraff 3.3.1 yr adroddiad.**
- **Cymeradwyo £20,000 o gyllid cyfatebol ychwanegol ar gyfer cynllun Lliniaru Llifogydd ym Mhentraeth yn unol â pharagraff 3.1.2 yr adroddiad.**
- **Cymeradwyo £8,000 o gyllideb cyfatebol ychwanegol ar gyfer cynllun cae 3G yng Nghanolfan Hamdden David Hughes yn unol â pharagraff 3.3.2 yr adroddiad.**

8. MONITRO CYLLIDEB Y CRT – CHWARTER 2 2019/20

Cyflwynwyd, i'r Pwyllgor Gwaith ei ystyried, adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 yn nodi perfformiad ariannol Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) am Chwarter 2 2019/20.

Adroddodd y Deilydd Portffolio Cyllid bod y sefyllfa ariannol refeniw ar gyfer Chwarter 2 yn dangos gorwariant o £71k. Mae'r rhagolygon o ran incwm yn parhau i fod £75k yn well na'r gyllideb wreiddiol, a rhagwelir yn awr y bydd £75k yn well na'r gyllideb wreiddiol (ceir manylion yn Atodiad A). Mae gwariant cyfalaf £1.791k yn is na'r gyllideb a broffiliwyd. Mae'r gwariant a ragwelir £190k yn uwch na'r gyllideb (ceir manylion yn Atodiad B). Mae'r diffyg a ragwelir (yn cyfuno refeniw a chyfalaf) £40k yn uwch na'r gyllideb (o gymharu â £67k yn adroddiad Ch1) oherwydd gwariant cyfalaf uwch na'r gyllideb.

Penderfynwyd nodi'r canlynol -

- **Y sefyllfa a nodir o ran perfformiad ariannol y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) ar gyfer Chwarter 2 2019/20.**
- **Yr alldro rhagdybiedig ar gyfer 2019/20.**

9. SYLFAEN Y DRETH GYNGOR AR GYFER 2020/21

Cyflwynwyd, i'r Pwllgor Gwaith ei ystyried, adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 mewn perthynas â chyfrifo sylfaen y dreth ar gyfer 2020/21.

Adroddodd yr Aelod Portffolio Cyllid fod cyfanswm y sylfaen ar gyfer 2020/21, at ddiben pennu'r dreth, yn 31,532,53. Mae hyn yn cymharu â 31,571.46 am 2019/20 ac yn ostyngiad o 0.12%. Mae hyn o ganlyniad i nifer o ffactorau gan gynnwys y canlynol –

- Disgowntiau ychwanegol ar gyfer pobl sengl a disgowntiau ac eithriadau ychwanegol ar gyfer amhariad iechyd meddwl difrifol. Yn achos yr olaf, os yw'r eithriad ar gyfer amhariad iechyd meddwl difrifol yn berthnasol i aelwyd lle mae cwpl yn byw, yna dim ond un person fydd yn gorfod talu Treth Gyngor ac o dan yr amgylchiadau hyn, byddant yn derbyn y disgownt person sengl.
- Gostyngiad o thua 130 yn nifer y tai gwag hirdymor lle'r oedd y premiwm yn berthnasol, sydd yn dangos bod y premiwm yn effeithiol o ran cyrraedd ei nod o ddo â thai gwag yn ôl i ddefnydd. Mae tua 40 eiddo gwag hirdymor newydd ond nid yw'r premiwm yn berthnasol iddynt ar hyn o bryd.
- Trosglwyddo eiddo domestig/ail gartrefi o sylfaen y Dreth Gyngor i drethi busnes os gellir dangos bod yr eiddo'n cael eu gosod yn fasnachol am 70 niwrnod mewn cyfnod o 12 mis. Er nad yw hon yn broblem neilltuol yn Ynys Môn o gymharu â rhai awdurdodau eraill yng Ngogledd Cymru, teimlir y dylai Llywodraeth Cymru ystyried cymryd camau i gau'r bwch cyfreithiol sy'n caniatáu i hyn ddigwydd.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 bod ffigyrau ar gyfer sylfaen y Dreth Gyngor yn 2020/21 wedi cael eu hanfon at Lywodraeth Cymru a byddant yn eu defnyddio i gyfrifo'r Grant Cynnal Refeniw ar gyfer 2020/21 (ac eithrio addasiadau ar gyfer premïymau ac, ar gyfer 2020/21 ymlaen, y gostyngiadau a roddir gan rai awdurdodau - ond nid Ynys Môn - mewn perthynas ag eiddo dosbarthiadau A, B a C). Bydd yn cael ei adlewyrchu yn y setliad dros dro cychwynnol gan olygu, yn ôl y tebyg, y bydd llai o amrywiaeth rhwng y setliad cychwynnol a'r setliad terfynol.

Nododd y Pwyllgor Gwaith y wybodaeth a gofynnodd, yn yr achosion hynny lle mae eiddo wedi cael eu trosglwyddo i drethi busnes, a oes trefniadau i fonitro a gwirio eu bod yn parhau i gwrdd â'r meini prawf cymhwyso ar gyfer trethi busnes.

Eglurodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 bod hyn yn fater i Asiantaeth y Swyddfa Brisio; yn y gorffennol gofynnwyd a oes gan yr Asiantaeth ddigon o gapasiti i wneud gwaith monitro parhaus i sicrhau cydymffurfiaeth. Mae Cyngor Gwynedd wedi arwain o ran cyflwyno achos i Lywodraeth Cymru dros gynyddu adnoddau Asiantaeth y Swyddfa Brisio er mwyn caniatáu iddi ymgymryd â'r swyddogaeth hon; mae Ynys Môn mewn cysylltiad â Chyngor Gwynedd ynghylch datblygiad y trafodaethau hynny.

Penderfynwyd –

- **Nodi cyfrifiad sylfaen y Dreth Gyngor gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 fydd yn cael ei ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cyfrifo'r Grant Cynnal Refeniw i Gyngor Sir Ynys Môn am y flwyddyn 2020/21, sef 30,927.17 (Rhan E6 o Atodiad A i'r adroddiad).**
- **Cymeradwyo'r cyfrifiad at ddiben pennu Sylfaen y Dreth Gyngor gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 am y cyfan o'r ardal ac am rannau ohoni dros y flwyddyn 2020/21 (Rhan E5 o Atodiad A i'r adroddiad)**
- **Yn unol â Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen y Dreth Gyngor (Cymru) 1995 (SI19956/2561) fel y cawsant eu diwygio gan SI1999/2935 a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen y Dreth Gyngor) a'r Dreth Gyngor (Dosbarthiadau Rhagnodedig o Anheddau) (Cymru) (Diwygiad) 2004 a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen y Dreth Gyngor (Cymru) (Diwygiad) 2016, y cyfansymiau mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi eu cyfrif fel Sylfaen y Dreth am 2020/21 fydd 31,532.53, ac fel a nodir yn nhabl 3 yr adroddiad am y rhannau hynny o'r ardal a restrir ynddo.**

10. FFEDERALEIDDIO YSGOL GORONWY OWEN AC YSGOL MOELFRE

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc a oedd yn ceisio cymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith i'r cynnig i ffederaleiddio Ysgol Goronwy Owen ac Ysgol Moelfre.

Adroddodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc bod rhybudd statudol ar y cynnig i ffederaleiddio Ysgol Goronwy Owen ac Ysgol Moelfre wedi cael ei gyhoeddi ar 30 Medi 2019, ar ôl derbyn cymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith ac yn unol â gofynion deddfwriaethol, ac yn dilyn hynny cynhaliwyd cyfnod gwrthwynebu statudol o 28 diwrnod ar y cynnig. Yn yr un modd â'r ymgynghoriad statudol blaenorol, ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiadau yn ystod y cyfnod hwn ac o ganlyniad argymhellir bod y cynnig i ffederaleiddio'r ddwy ysgol yn cael ei gadarnhau yn derfynol.

Penderfynwyd cadarnhau'n derfynol y cynnig i ffederaleiddio Ysgol Goronwy Owen ac Ysgol Moelfre.

11. YSGOGIAD ECONOMAIDD LLYWODRAETH CYMRU

Cyflwynwyd, i'r Pwyllgor Gwaith ei ystyried, adroddiad y Dirprwy Brif Weithredwr yn nodi cynigion i ddefnyddio arian ysgogiad economaidd Llywodraeth Cymru.

Adroddodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Prosiectau Mawr a Datblygu Economaidd bod Llywodraeth Cymru wedi cynnig £491,330 i'r Cyngor Sir mewn llythyr dyddiedig Awst 2019, ar yr amod bod yr arian yn cael ei fuddsoddi mewn cynlluniau cyfalaf i yrru newidiadau

pwysig yn ein cymunedau; i ariannu ystod o brosiectau y gellir eu cyflawni yn ystod y flwyddyn i ddarparu buddiannau economaidd sydd wedi eu halinio â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ac ar yr amod hefyd bod yr arian yn cael ei fuddsoddi mewn modd sy'n ystyried sut y gellir cael effaith gadarnhaol ar fioamrywiaeth a'r amgylchedd. Mae'n holl bwysig bod yr arian yn cael ei wario a'i hawlio cyn 31 Mawrth, 2020. Rhoddwyd ystyriaeth i nifer o brosiectau posib fyddai'n gallu elwa o'r arian hwn ac roedd yr amser byr ar gyfer eu cyflawni yn ffactor hanfodol wrth ystyried dichonoldeb y prosiectau.

Dywedodd yr Aelod Portffolio bod yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn cefnogi dau brosiect – (1) ailddatblygu tir tu ôl i Peboc (a amlinellir yn Atodiad A) a (2) symud ymlaen i ddymchwel hen Ysgol y Parc a'r llyfrgell yng Nghaergybi (a amlinellir yn Atodiad B). Cydnabyddir, er bod yr arian a dderbyniwyd yn sylweddol, nad yw'r swm yn ddigon i ganiatáu i'r Cyngor gwblhau'r ddau weithgaredd felly bydd y Cyngor yn rhoi arian cyfatebol tuag at y grant i sicrhau fod y ddau brosiect yn cael eu cyflawni, gan fanteisio i'r eithaf ar y canlyniadau. Os na chyflawnir y ddau gynllun blaenoriaeth, yna byddai'r Cyngor yn ceisio prynu tir mewn lleoliadau strategol o gwmpas yr Ynys y gellid ei ddatblygu yn y dyfodol, neu ddatblygu prosiectau eraill a fyddai'n cyfrannu at amcanion datblygu economaidd. Byddai gan y Dirprwy Brif Weithredwr a'r Deilydd Portffolio ddisgresiwn ynghylch yr opsiynau amgen hyn.

Dywedodd y Dirprwy Brif Weithredwr bod adnoddau presennol wedi cael eu defnyddio i wneud gwaith paratoi ymlaen llaw ar y prosiectau er mwyn sicrhau eu bod yn barod i gychwyn pan fydd arian ar gael, ac mae hynny wedi creu gwaith ychwanegol i'r Tîm Adfywio Economaidd. Er bod y Cyngor yn ddiolchgar i Lywodraeth Cymru am yr arian ychwanegol, y mae croeso iddo bob amser ac y byddwn yn gwneud y defnydd gorau ohono - y gobaith yw y bydd arian sy'n cael ei wario yn y modd hwn yn denu datblygiad gan y sector preifat neu grantiau pellach i adeiladu ar y tir dan sylw. Er bod nifer o brosiectau teilwng eraill a oedd yn cyfiawnhau'r gwariant, roedd y cyfyngiad amser yn ffactor allweddol ac felly roedd y ffaith y gellid cyflawni'r ddau brosiect yn elfen bwysig o blaid eu cymeradwyo.

Er bod y Pwyllgor Gwaith yn ddiolchgar i Lywodraeth Cymru am y grant, nododd y byddai'n fuddiol petai mwy o rybudd am yr arian wedi'i roi ymlaen llaw a mwy o amser i gyflawni'r prosiectau. Byddai hynny hefyd wedi caniatáu i'r Cyngor feddwl yn fwy strategol am gynlluniau cymwys posib ac i sicrhau'r defnydd gorau posib o arian. Roedd y Pwyllgor Gwaith yn cydnabod y gwaith a wnaed gan y Tîm Adfywio Economaidd i gael y prosiectau'n barod mewn cyfnod byr o amser a gyda chapasiti cyfyngedig.

Mewn ymateb i'r ymholiad ynghylch a roddwyd ystyriaeth i gynnwys safle gorsaf yr Heddlu gerllaw yn y cynllun ar gyfer safle hen Ysgol y Parc a'r Llyfrgell yng Nghaergybi, cadarnhaodd y Dirprwy Brif Weithredwr bod yr Awdurdod wedi cysylltu â'r Heddlu er mwyn sicrhau fod cyd-ddealltwriaeth rhyngddynt a chymaint o gyd-gynllunio â phosib yn digwydd; er bod gan Heddlu Gogledd Cymru ei raglen gyfalaf a thargedau gwariant ei hun, mae'n gwneud synnwyr i edrych ar y safle yn ei gyfanrwydd fel safle ym mherchnogaeth gyhoeddus.

Penderfynwyd –

- **Nodi'r cynnig o £491,330 o arian cyfalaf ar gyfer 2019/20.**
- **Cymeradwyo prosiectau ar y tir ger Peboc a hen Ysgol y Parc fel cynlluniau blaenoriaeth.**
- **Os bydd rhaid defnyddio cyfran neu'r cyfan o'r grant fel rhan o'r cyllid ar gyfer dymchwel hen Ysgol y Parc a Llyfrgell Caergybi, yna gellir defnyddio swm cyfatebol o dderbyniad cyfalaf yn 2020/21 i gwblhau'r gwaith o ail-ddatblygu'r tir tu cefn i Peboc (os yw'r cynllun hwnnw wedi cychwyn yn 2019/20).**
- **Dirprwyo'r awdurdod i'r Dirprwy Brif Weithredwr a'r Deilydd Portffolio perthnasol i ddatblygu'r ddau brosiect i'r cyfnod gweithredu a chytuno i**

gyflawni cynlluniau cyfalaf cymwys eraill os na ddefnyddir yr arian i gyd ar y ddau brosiect blaenoriaeth.

**Y Cynghorydd Llinos Medi
Cadeirydd**

DRAFT

This page is intentionally left blank

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
Adroddiad i:	Pwyllgor Gwaith
Dyddiad:	16 Rhagfyr 2019
Pwnc:	Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
Aelod(au) Portffolio:	Cyng Llinos Medi
Pennaeth Gwasanaeth:	Lynn Ball Pennaeth Swyddogaeth – Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro
Awdur yr Adroddiad: Rhif Ffôn: E-bost:	Huw Jones, Pennaeth Gwasanaethau Democraidaidd 01248 752108 JHuwJones@ynysmon.gov.uk
Aelodau Lleol:	Amherthnasol

A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau

Yn unol â'i Gyfansoddiad, mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi blaen raglen waith a'i diweddarau'n rheolaidd. Cyhoeddir blaen raglen Waith y Pwyllgor Gwaith yn fisol er mwyn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith:

gadarnhau'r blaen raglen waith atodol ar gyfer y cyfnod **Ionawr – Awst 2020**;

Adnabod unrhyw faterion ar gyfer cael mewnbwn penodol ac ymgynghoriad gyda Phwyllgorau Sgrwtini'r Cyngor a chadarnhau'r angen i'r Pwyllgorau Sgrwtini ddatblygu eu rhaglenni gwaith i gefnogi rhaglen waith y Pwyllgor Gwaith;

Nodi bod blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei diweddarau'n fisol a'i chyflwyno fel eitem safonol yn fisol i'r Pwyllgor Gwaith.

* Allwedd i'r Categoriâu:

Strategol – cynlluniau a mentrau allweddol corfforaethol

Gweithredol – darparu gwasanaethau

Er gwybodaeth

B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?

-

C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith cyn cyhoeddi pob diweddariad er mwyn cryfhau atebolrwydd a threfniadau blaengynllunio.

D – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Ydyw.

DD – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

Amherthnasol.

E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?		Beth oedd eu sylwadau?
1	Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (mandadol)	Mae blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei thrafod yn fisol yng nghyfarfodydd y Penaethiaid Gwasanaeth (eitem safonol ar y rhaglen). Fe'i cylchredir yn rheolaidd hefyd i Benaethiaid Gwasanaeth er mwyn ei diweddarau.
2	Cyllid / Adran 151 (mandadol)	
3	Cyfreithiol / Swyddog Monitro (mandadol)	
5	Adnoddau Dynol (AD)	
6	Eiddo	
7	Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)	
8	Sgriwtini	
9	Aelodau Lleol	Cynhelir cyd-drafodaeth yn fisol ar raglenni gwaith y Pwyllgor Gwaith a'r ddau Bwyllgor Sgriwtini, a hynny er mwyn sicrhau aliniad rhyngddynt.
10	Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill	Amherthnasol.

* Allwedd i'r Categoriâu:

Strategol – cynlluniau a mentrau allweddol corfforaethol

Gweithredol – darparu gwasanaethau

Er gwybodaeth

F – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)		
1	Economaidd	
2	Gwrthdodi	
3	Trosedd ac Anhrefn	
4	Amgylcheddol	
5	Cydraddoldebau	
6	Cytundebau Canlyniad	
7	Arall	

FF - Atodiadau:

Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith: Ionawr – Awst 2020.

G - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):

--

* *Allwedd i'r Categoriâu:*
Strategol – cynlluniau a mentrau allweddol corfforaethol
Gweithredol – darparu gwasanaethau
Er gwybodaeth

BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Ionawr – Awst 2020

Diweddardwyd 4 Rhagfyr 2019



Mae blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.

Mae modd i benderfyniadau gweithredol gael ei gwneud gan y Pwyllgor Gwaith llawn yn gweithredu fel corff cyfunol neu gan aelodau unigol o'r Pwyllgor Gwaith yn gweithredu trwy hawliau dirprwyiedig. Mae'r blaen raglen waith yn cynnwys gwybodaeth am y penderfyniadau a geisir, pwy fydd yn gwneud y penderfyniadau a phwy yw'r Swyddogion a'r Deilyddion portffolio arweiniol ar gyfer pob eitem.

Tudalen 14

Dylid nodi, fodd bynnag, bod y blaen raglen waith yn ddogfen hyblyg, gan nad oes modd gwybod am yr holl eitemau y bydd angen penderfyniad arnynt gymaint â hyn ymlaen llaw ac efallai bydd angen newid yr amserlen ar gyfer rhai materion er mwyn cwrdd â blaenoriaethau newydd ayyb. Oherwydd hyn, fe adolygir yn rheolaidd y rhestr o eitemau sydd wedi'u cynnwys.

Yn achlysurol, bydd angen cyflwyno adroddiadau am drafodion eiddo penodol, a hynny yn unol â Pholisi a Gweithdrefnau Rheoli Asedau. Oherwydd dylanwad y farchnad allanol, nid yw'n bosibl dynodi amseriad adroddiadau fel hyn ymlaen llaw.

Amlinellir blaenraglen waith y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y cyfnod **Ionawr - Awst 2020** ar y tudalennau dilynol.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

* Allwedd:

G = Gweithredol – darparu gwasanaethau

ErG = Er gwybodaeth

S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol

BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Ionawr – Awst 2020

Diweddarwyd 4 Rhagfyr 2019

Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir		Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portfolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam	Gwasanaeth Arweiniol	Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau	Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)	Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi	Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)	
Rhagfyr 2019								
	Cyfansoddiad y Cyngor – Proses ar gyfer gosod y Gyllideb 2020/21 Argymhell bod y Cyngor yn atal rhan 4.3.2.2.8 o'r Cyfansoddiad	Arweinydd y Cyngor	Adnoddau	Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151 Cyng Llinos Medi		Penderfyniad dirprwyiedig Rhagfyr 2019	Cyngor Sir 10 Rhagfyr 2019	
Ionawr 2020								
Tudalen 15	1	Cyllideb 2020/21 (S) Cwblhau cynigion cychwynnol drafft y Pwyllgor Gwaith ar gyfer ymgyngori.	Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dod o fewn Fframwaith Gyllideb y Cyngor.	Adnoddau	Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151 Cyng Robin Wyn Williams	Panel Sgriwtini Cyllid Dyddiad i'w gadarnhau Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 13 Ionawr 2020	Pwyllgor Gwaith 13 Ionawr 2020	
	2	Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S) Cymeradwyo diweddariad misol.	Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd.	Busnes y Cyngor	Huw Jones Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Cyng Llinos Medi		Pwyllgor Gwaith 27 Ionawr 2020	

* Allwedd:

G = Gweithredol – darparu gwasanaethau

ErG = Er gwybodaeth

S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol

BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Ionawr – Awst 2020

Diweddarwyd 4 Rhagfyr 2019

Tudalen 16

Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir	Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam	Gwasanaeth Arweiniol	Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswilt ar gyfer cyflwyno sylwadau	Cyn penderfynu / Sgrwtini (os yn berthnasol)	Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi	Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)
3	Trawsnewid Cyfleoedd Dydd Anableddau Dysgu Cydsyniad i'r broses ymgyngori.	Tai	Alwyn Jones Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Cyng Llinos Medi	Pwyllgor Sgrwtini Partneriaeth ac Adfywio – dyddiad i'w gadarnhau	Pwyllgor Gwaith 27 Ionawr 2020	
Chwefror 2020						
4	Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S) Cymeradwyo diweddariad misol.	Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd.	Busnes y Cyngor Cyng Llinos Medi	Huw Jones Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Cyng Llinos Medi	Pwyllgor Gwaith 17 Chwefror 2020	
5	Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024 Cymeradwyo'r Cynllun a gwneud argymhelliad i'r Cyngor llawn.		Busnes y Cyngor Cyng Llinos Medi	Huw Jones Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Cyng Llinos Medi	Pwyllgor Sgrwtini Partneriaeth ac Adfywio 4 Chwefror 2020	Pwyllgor Gwaith 17 Chwefror 2020 Cyngor Sir 10 Mawrth 2020
Mawrth 2020						
6	Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb 2018/19 Cymeradwyo'r adroddiad.	Deilydd Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol	Busnes y Cyngor Cyng Llinos Medi	Huw Jones Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Cyng Llinos Medi	Penderfyniad dirprwyiedig Mawrth 2020	

* Allwedd:

G = Gweithredol – darparu gwasanaethau

ErG = Er gwybodaeth

S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol

BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Ionawr – Awst 2020

Diweddarwyd 4 Rhagfyr 2019

Tudalen 17

	Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir	Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam	Gwasanaeth Arweiniol	Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau	Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)	Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi	Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)
7	Monitro Cyllideb Refeniw 2019/20 – Ch3 (S) Adroddiad monitro ariannol chwarterol.	Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor.	Adnoddau	Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151 Cyng Robin Wyn Williams	Panel Sgriwtini Cyllid – Dyddiad i'w gadarnhau	Pwyllgor Gwaith 2 Mawrth 2020	
8	Monitro Cyllideb Gyfalaf 2019/20 – Ch3 (S) Adroddiad monitro ariannol chwarterol.	Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor.	Adnoddau	Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151 Cyng Robin Wyn Williams	Panel Sgriwtini Cyllid – Dyddiad i'w gadarnhau	Pwyllgor Gwaith 2 Mawrth 2020	
9	Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai 2019/20 – Ch3 (S) Adroddiad monitro ariannol chwarterol.	Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor.	Adnoddau	Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151 Cyng Robin Wyn Williams	Panel Sgriwtini Cyllid – Dyddiad i'w gadarnhau	Pwyllgor Gwaith 2 Mawrth 2020	
10	Polisi Rhyddhad Dewisol rhag y Dreth Fusnes Mabwysiadu fframwaith newydd yn dilyn ymgyngoriad cyhoeddus.	Mae angen penderfyniad cyfunol gan y Pwyllgor Gwaith o ran manylu ar y rhyddhad ychwanegol rhag y dreth fusnes i'w ddyrranu i elusennau a sefydliadau sydd ddim yn gwneud elw	Adnoddau	Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151 Cyng Robin Wyn Williams		Pwyllgor Gwaith 2 Mawrth 2020	

* Allwedd:

G = Gweithredol – darparu gwasanaethau

ErG = Er gwybodaeth

S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol

BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Ionawr – Awst 2020

Diweddarwyd 4 Rhagfyr 2019

Tudalen 18

	Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir	Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portfolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam	Gwasanaeth Arweiniol	Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau	Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)	Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi	Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)
11	Ffioedd a Thaliadau 2020/21	Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dod o fewn Fframwaith Gyllideb y Cyngor.	Adnoddau	Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151 Cyng Robin Wyn Williams	Panel Sgriwtini Cyllid 11 Gorffennaf 2019; 25 Medi 2019	Pwyllgor Gwaith 2 Mawrth 2020	
12	Taliadau am Wasanaethau Di-Breswyl 2020/21 Cymeradwyaeth.	Mae angen penderfyniad cyfunol gan fod y mater yn ymwneud ag ystyriaethau ariannol materol berthnasol.	Gwasanaethau Oedolion	Alwyn Jones Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Cyng Llinos Medi		Pwyllgor Gwaith 2 Mawrth 2020	
13	Ffi Safonol ar gyfer Cartrefi Preswyl y Cyngor Sir yn ystod 2020/21 Cymeradwyaeth.	Mae angen penderfyniad cyfunol gan fod y mater yn ymwneud ag ystyriaethau ariannol materol berthnasol.	Gwasanaethau Oedolion	Alwyn Jones Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Cyng Llinos Medi		Pwyllgor Gwaith 2 Mawrth 2020	
14	Ffioedd Cartrefi Gofal y Sector Annibynnol 2020/21 Cymeradwyaeth.	Mae angen penderfyniad cyfunol gan fod y mater yn ymwneud ag ystyriaethau ariannol materol berthnasol.	Gwasanaethau Oedolion	Alwyn Jones Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Cyng Llinos Medi		Pwyllgor Gwaith 2 Mawrth 2020	
15	Rhenti a ffioedd ar gyfer y Gwasanaeth Tai yn 2020/21		Gwasanaethau Tai	Ned Michael Pennaeth Gwasanaethau Tai Cyng Alun Mummery		Pwyllgor Gwaith 2 Mawrth 2020	

* Allwedd:

G = Gweithredol – darparu gwasanaethau

ErG = Er gwybodaeth

S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol

BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Ionawr – Awst 2020

Diweddarwyd 4 Rhagfyr 2019

Tudalen 19

	Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir	Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam	Gwasanaeth Arweiniol	Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswilt ar gyfer cyflwyno sylwadau	Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)	Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi	Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)
16	Arian Wrth Gefn Diweddariad o'r sefyllfa mewn perthynas ag Arian Wrth Gefn.	Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol.	Adnoddau	Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151 Cyng Robin Wyn Williams		Pwyllgor Gwaith 2 Mawrth 2020	
17	Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a Chyllideb 2020/21 (S) Mabwysiadu cynigion terfynol i'w hargymell il'r Cyngor Sir.	Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dod o fewn Fframwaith Gyllideb y Cyngor.	Adnoddau	Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151 Cyng Robin Wyn Williams	Panel Sgriwtini Cyllid Dyddiad i'w gadarnhau Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 10 Chwefror 2020	Pwyllgor Gwaith 2 Mawrth 2020	Cyngor Sir 10 Mawrth 2020
18	Strategaeth Gyfalaf a Rhaglen Gyfalaf	Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dod o fewn Fframwaith Gyllideb y Cyngor.	Adnoddau	Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151 Cyng Robin Wyn Williams		Pwyllgor Gwaith 2 Mawrth 2020	Cyngor Sir 10 Mawrth 2020
19	Strategaeth Rheoli Trysorlys 2020/21 Mabwysiadu strategaeth ar gyfer y flwyddyn ariannol newydd.	Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dod o fewn Fframwaith Gyllideb y Cyngor.	Adnoddau	Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151 Cyng Robin Wyn Williams		Pwyllgor Gwaith 2 Mawrth 2020	Cyngor Sir 10 Mawrth 2020

* Allwedd:

G = Gweithredol – darparu gwasanaethau

ErG = Er gwybodaeth

S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol

BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Ionawr – Awst 2020

Diweddarwyd 4 Rhagfyr 2019

	Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir	Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portfolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam	Gwasanaeth Arweiniol	Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswilt ar gyfer cyflwyno sylwadau	Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)	Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi	Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)
	20	Cyllideb Gyfalaf 2020/21	Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dod o fewn Fframwaith Gyllideb y Cyngor.	Adnoddau	Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151 Cyng Robin Wyn Williams	Pwyllgor Gwaith 2 Mawrth 2020	Cyngor Sir 10 Mawrth 2020
Tudalen 20	21	Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S) Cymeradwyo diweddariad misol.	Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd.	Busnes y Cyngor	Huw Jones Pennaeth Gwasanaethau Democratiaid Cyng Llinos Medi	Pwyllgor Gwaith 23 Mawrth 2020	
	22	Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch3, 2019/20 (S) Adroddiad monitro perfformiad chwarterol.	Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am berfformiad cyfredol ar draws y Cyngor.	Trawsnewid Corfforaethol	Carys Edwards Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid Cyng Dafydd Rhys Thomas	Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 9 Mawrth 2020	Pwyllgor Gwaith 23 Mawrth 2020
	23	Polisi Taliadau Tai Dewisol Cymeradwyo newidiadau i'r polisi.		Adnoddau	Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151 Cyng Robin Wyn Williams		Pwyllgor Gwaith 23 Mawrth 2020

* Allwedd:

G = Gweithredol – darparu gwasanaethau

ErG = Er gwybodaeth

S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol

BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Ionawr – Awst 2020

Diweddarwyd 4 Rhagfyr 2019

	Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir	Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam	Gwasanaeth Arweiniol	Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswilt ar gyfer cyflwyno sylwadau	Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)	Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi	Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)
	24	Arolwg AGC o Wasanaethau Plant yn Ynys Môn – Cynllun Gwella – Cynnydd 6 mis	Gwasanaethau Plant	Fôn Roberts Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd Cyng Llinos Medi	Panel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol 18 Chwefror 2020 Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 9 Mawrth 2020	Pwyllgor Gwaith 23 Mawrth 2020	
Ebrill 2020							
Tudalen 21	25	Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S) Cymeradwyo diweddariad misol.	Busnes y Cyngor	Huw Jones Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Cyng Llinos Medi		Pwyllgor Gwaith 27 Ebrill 2020	
	26	Trawsnewid Cyfleoedd Dydd Anableddau Dysgu Cam 2 – adrodd yn ôl ar ganfyddiadau'r broses ymgysylltu a chynigion Trawsnewid.	Tai	Alwyn Jones Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Cyng Llinos Medi		Pwyllgor Gwaith 27 Ebrill 2020	

* Allwedd:

G = Gweithredol – darparu gwasanaethau

ErG = Er gwybodaeth

S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol

BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Ionawr – Awst 2020

Diweddarwyd 4 Rhagfyr 2019

Tudalen 22

Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir	Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam	Gwasanaeth Arweiniol	Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswilt ar gyfer cyflwyno sylwadau	Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)	Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi	Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)
Mai 2020						
27	Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S) Cymeradwyo diweddariad misol.	Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd.	Busnes y Cyngor	Huw Jones Pennaeth Gwasanaethau Democraidaidd Cyng Llinos Medi		Pwyllgor Gwaith Mai 2020
Mehefin 2020						
28	Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2019/20 Cymeradwyo'r adroddiad.	Deilydd Portffolio sydd â chyfrifoldeb am yr iaith.	Busnes y Cyngor	Huw Jones Pennaeth Gwasanaethau Democraidaidd Cyng Ieuan Williams	I'w gadarnhau	Penderfyniad dirpwiedig Mehefin 2020
29	Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S) Cymeradwyo diweddariad misol.	Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd.	Busnes y Cyngor	Huw Jones Pennaeth Gwasanaethau Democraidaidd Cyng Llinos Medi		Pwyllgor Gwaith Mehefin 2020
30	Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch4, 2019/20 (S) Adroddiad monitro perfformiad chwarterol.	Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am berfformiad cyfredol ar draws y Cyngor.	Trawsnewid Corfforaethol	Carys Edwards Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid Cyng Dafydd Rhys Thomas	Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol Dyddiad i'w gadarnhau	Pwyllgor Gwaith Mehefin 2020

* Allwedd:

G = Gweithredol – darparu gwasanaethau

ErG = Er gwybodaeth

S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol

BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Ionawr – Awst 2020

Diweddariad 4 Rhagfyr 2019

Tudalen 23

Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir	Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portfolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam	Gwasanaeth Arweiniol	Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau	Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)	Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi	Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)
31 Monitro Cyllideb Refeniw 2019/20 – Ch4 (S) Adroddiad monitro ariannol chwarterol.	Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor.	Adnoddau	Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151 Cyng Robin Wyn Williams	Panel Sgriwtini Cyllid Dyddiad i'w gadarnhau	Pwyllgor Gwaith Mehefin 2020	
32 Monitro Cyllideb Gyfalaf 2019/20 – Ch4 (S) Adroddiad monitro ariannol chwarterol.	Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor.	Adnoddau	Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151 Cyng Robin Wyn Williams	Panel Sgriwtini Cyllid Dyddiad i'w gadarnhau	Pwyllgor Gwaith Mehefin 2020	
33 Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai 2019/20 – Ch4 (S) Adroddiad monitro ariannol chwarterol.	Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor.	Adnoddau	Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151 Cyng Robin Wyn Williams	Panel Sgriwtini Cyllid Dyddiad i'w gadarnhau	Pwyllgor Gwaith Mehefin 2020	
Gorffennaf 2020						
34 Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S) Cymeradwyo diweddariad misol.	Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd.	Busnes y Cyngor	Huw Jones Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Cyng Llinos Medi		Pwyllgor Gwaith Gorffennaf 2020	

* Allwedd:

G = Gweithredol – darparu gwasanaethau

ErG = Er gwybodaeth

S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol

This page is intentionally left blank

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
ADRODDIAD I:	PWYLLGOR GWAITH
DYDDIAD:	16 RHAGFYR 2019
PWNC:	ADRODDIAD ADOLYGU CANOL BLWYDDYN - RHEOLI'R TRYSORLYS 2019/20
AELOD(AU) PORTFFOLIO	CYNGHORYDD ROBIN WILLIAMS
Cost yr Wythnos	£60.00			S
Cost y Mis	£150.00			S

Hamdden

Gwasanaeth	Ffi/Tâl 1 ^{af} Chwefror	Ffi/Tâl 1 ^{af} Ebrill	Ffi/Tâl Medi	TAW
Canolfannau Hamdden				
Cerdyn Hamdden (Tâl Blynyddol)				
Plant a phobl ifanc (dan 18 oed) a rhai sydd wedi cofrestru'n anabl		£8.00		E
60+ oed		£12.00		E
Oedolion (18 – 59 oed (cynhwysol))		£21.00		E
Di-waith (3+ mis)		£5.20		E
Timau / grwpiau / clybiau		£70.00		E
Cerdyn Hamdden (Aelodaeth 3 mis)				
<p>Ar gyfer pob archeb grŵp achlysurol, codir y gyfradd llawn Mae'r holl brisiau yn seiliedig ar un archeb, fesul awr (oni nodir fel arall) Nofio = fesul ymweliad</p> <p>CHDH = Canolfan Hamdden David Hughes CHPA = Canolfan Hamdden Plas Arthur CHA = Canolfan Hamdden Amlwch CHC = Canolfan Hamdden Caergybi</p>				
Cyffredinol				
Cawodydd (aelod - oedolyn)		£3.00		S
Cawodydd (aelod - consesiynau)		£2.00		S
Cawodydd (di-aelod - oedolyn)		£3.80		S
Cawodydd (di-aelod - consesiynau)		£2.50		S
Amser Staff (30 Munud)		£14.00		S
Neuadd Chwaraeon				
Neuadd Lawn (aelod - oedolyn)		£45.00		E
Neuadd Lawn (aelod - consesiynau)		£27.00		E
Neuadd Lawn (di-aelod - oedolyn)		£56.30		E
Neuadd Lawn (di-aelod - consesiynau)		£34.00		E
Neuadd Lawn - Llogi Masnachol (dim yn cynnwys TAW) (aelod - oedolyn)		£67.50		D/B
Neuadd Lawn - Llogi Masnachol (dim yn cynnwys TAW) (di-aelod - oedolyn)		£84.40		D/B
Parti pwll – fflôt ddŵr (aelod)		£84.00		E
Parti pwll – fflôt ddŵr (di-aelod)		£105.00		E

Parti – castell neidio (aelod)		£69.00		S
Parti – castell neidio (di-aelod)		£86.00		S
Amrywiol becynnau parti		Pris ar gofyn		S
Cwrt Badminton / Tennis Byr / Bowlio Mat Fer (aelod - oedolyn)		£8.50		E
Cwrt Badminton / Tennis Byr / Bowlio Mat Fer (aelod - consesiynau)		£5.00		E
Cwrt Badminton / Tennis Byr / Bowlio Mat Fer (di-aelod - oedolyn)		£10.70		E
Cwrt Badminton / Tennis Byr / Bowlio Mat Fer (di-aelod - consesiynau)		£6.30		E
Cwrt Sboncen (aelod - oedolyn)		£8.50		E
Cwrt Sboncen (aelod - consesiynau)		£5.00		E
Cwrt Sboncen (di-aelod - oedolyn)		£10.70		E
Cwrt Sboncen (di-aelod - consesiynau)		£6.30		E
Tennis Bwrdd (fesul bwrdd) (aelod - oedolyn)		£8.50		E
Tennis Bwrdd (fesul bwrdd) (aelod - consesiynau)		£5.00		E
Tennis Bwrdd (fesul bwrdd) (di-aelod - oedolyn)		£10.70		E
Tennis Bwrdd (fesul bwrdd) (di-aelod - consesiynau)		£6.30		E
Defnydd ysgolion – heb hyfforddwyr (30 munud)				
Neuadd lawn		£18.00		E
Hanner neuadd		£13.50		E
Hyfforddwyr ar gyfer yr uchod		£14.00		E
Llogi Ystafelloedd				
Ystafell Gweithgareddau (hefo Arlwyfaeth) (aelod - oedolyn)		£15.50		S
Ystafell Gweithgareddau (hefo Arlwyfaeth) (di-aelod - oedolyn)		£19.40		S
Ystafell Gyfarfod (aelod - oedolyn)		£15.60		S
Ystafell Gyfarfod (di-aelod - oedolyn)		£16.30		S
Llogi 4 awr olynol (aelod - oedolyn)		£47.40		E
Llogi 4 awr olynol (di-aelod - oedolyn)		£60.00		E
Diwrnod llawn (aelod - oedolyn)		£94.20		E
Diwrnod llawn (di-aelod - oedolyn)		£118.00		E
Ystafell ffitrwydd / ystafell codi pwysau				
Anwythiad (aelod - oedolyn)		£12.50		E
Anwythiad (aelod - consesiynau)		£9.00		E
Anwythiad (di-aelod - oedolyn)		£15.70		E
Anwythiad (di-aelod - consesiynau)		£11.30		E
Defnydd Unigol:				
Sesiwn Ffitrwydd 16+		£5.00		E
Tocyn wythnosol – Ystafell Ffitrwydd a Nofio (aelod - oedolyn)		£12.00		E
Tocyn wythnosol – Ystafell Ffitrwydd a Nofio (aelod - consesiynau)		£8.50		E

Tocyn wythnosol – Ystafell Ffitrwydd a Nofio (di-aelod - oedolyn)		£15.00		E
Tocyn wythnosol – Ystafell Ffitrwydd a Nofio (di-aelod - consesiynau)		£11.00		E
Tocyn misol – Ystafell Ffitrwydd a Nofio (aelod - oedolyn)		£34.00		E
Tocyn misol – Ystafell Ffitrwydd a Nofio (aelod - consesiynau)		£25.00		E
Tocyn misol – Ystafell Ffitrwydd a Nofio (di-aelod - oedolyn)		£43.00		E
Tocyn misol – Ystafell Ffitrwydd a Nofio (di-aelod - consesiynau)		£31.00		E
Tocyn Wythnosol (CHDH) – Ystafell Ffitrwydd yn unig (aelod - oedolyn)		£11.00		E
Tocyn Wythnosol (CHDH) – Ystafell Ffitrwydd yn unig (aelod - consesiynau)		£8.00		E
Tocyn Wythnosol (CHDH) – Ystafell Ffitrwydd yn unig (di-aelod - oedolyn)		£14.00		E
Tocyn Wythnosol (CHDH) – Ystafell Ffitrwydd yn unig (di-aelod - consesiynau)		£10.00		E
Hyfforddiant Ffitrwydd leuenctid 14-16 oed - gyda hyfforddwr yn bresennol		£2.90		E
Debyd Uniongyrchol - Pob Canolfan Hamdden				
Pecyn Llawn		£29.00		E
Pecyn Oriau Tawel		£19.50		E
Pecyn Nofio		£16.50		E
Pecyn leuenctid		£16.00		E
Ystafell Ffitrwydd a Nofio		£23.50		E
Corfforaethol		£25.00		E
Pecynnau Aelodaeth Blynyddol:				
Pecyn Llawn		£290.00		E
Pecyn Oriau Tawel		£195.00		E
Pecyn leuenctid		£160.00		E
Ystafell Ffitrwydd a Nofio		£235.00		E
Tâl gweinyddol na ellir ei ad-dalu am godi bil		£6.00		S
Ymarfer trwy Wahoddiad				
Ddim yn aciwt		£2.00		E
Adferiad cardiaidd		£2.00		E
Ffit am Oes		£2.50		E
Sesiynau a Chyrsiau - Ochr Sych				
Sesiwn Ffitrwydd (0.5 awr) (aelod - oedolyn)		£3.50		E
Sesiwn Ffitrwydd (0.5 awr) (aelod - consesiynau)		£2.50		E
Sesiwn Ffitrwydd (0.5 awr) (di-aelod - oedolyn)		£4.40		E
Sesiwn Ffitrwydd (0.5 awr) (di-aelod - consesiynau)		£3.20		E
Sesiwn Ffitrwydd (1 awr) (aelod - oedolyn)		£5.00		E
Sesiwn Ffitrwydd (1 awr) (aelod - consesiynau)		£3.80		E
Sesiwn Ffitrwydd (1 awr) (di-aelod - oedolyn)		£6.30		E

Sesiwn Ffitrwydd (1 awr) (di-aelod - consesiynau)		£4.80		E
Sesiwn Ffitrwydd (2 awr) (aelod - oedolyn)		£6.00		E
Sesiwn Ffitrwydd (2 awr) (di-aelod - oedolyn)		£7.50		E
Hyfforddiant Personol 1:1 (aelod - oedolyn)		£12.00		E
Hyfforddiant Personol 1:1 (aelod - consesiynau)		£11.00		E
Hyfforddiant Personol 1:1 (di-aelod - oedolyn)		£15.00		E
Hyfforddiant Personol 1:1 (di-aelod - consesiynau)		£13.80		E
Hyfforddiant Personol 1:2 (aelod - oedolyn)		£17.00		E
Hyfforddiant Personol 1:2 (aelod - consesiynau)		£16.00		E
Hyfforddiant Personol 1:2 (di-aelod - oedolyn)		£21.30		E
Hyfforddiant Personol 1:2 (di-aelod - consesiynau)		£20.00		E
Gwersi gymnasteg (y sesiwn)		£4.00		E
Gweithgareddau i Blant		£3.20		E
Meithrinfa		£2.10		S
Camp Chwaraeon (y plentyn, y dydd)		£10.50		E
Nofio				
Nofio cyhoeddus (y sesiwn) (aelod - oedolyn)		£4.10		E
Nofio cyhoeddus (y sesiwn) (aelod - consesiynau)		£2.50		E
Nofio cyhoeddus (y sesiwn) (di-aelod - oedolyn)		£5.20		E
Nofio cyhoeddus (y sesiwn) (di-aelod - consesiynau)		£3.20		E
Tocyn wythnosol (dydd Llun – dydd Sul) (aelod - oedolyn)		£9.00		E
Tocyn wythnosol (dydd Llun – dydd Sul) (aelod - consesiynau)		£6.00		E
Tocyn wythnosol (dydd Llun – dydd Sul) (di-aelod - oedolyn)		£11.00		E
Tocyn wythnosol (dydd Llun – dydd Sul) (di-aelod - consesiynau)		£8.00		E
Teulu - tocyn nofio dyddiol		£10.50		E
Teulu - tocyn nofio wythnosol		£21.00		E
Gwersi (30 munud) (aelod - oedolyn)		£5.70		E
Gwersi (30 munud) (aelod - consesiynau)		£4.70		E
Gwersi (30 munud) (di-aelod - oedolyn)		£7.20		E
Gwersi (30 munud) (di-aelod - consesiynau)		£5.90		E
Gwersi preifat un i un (30 munud) (aelod - oedolyn)		£22.00		E
Gwersi preifat un i un (30 munud) (aelod - consesiynau)		£18.50		E
Gwersi preifat un i un (30 munud) (di-aelod - oedolyn)		£27.50		E
Gwersi preifat un i un (30 munud) (di-aelod - consesiynau)		£23.00		E
Gwersi preifat un i ddau (30 munud) (aelod - oedolyn)		£30.00		E
Gwersi preifat un i ddau (30 munud) (aelod - consesiynau)		£25.00		E
Gwersi preifat un i ddau (30 munud) (di-aelod - oedolyn)		£35.00		E

Gwersi preifat un i ddau (30 munud) (di-aelod - consesiynau)		£30.00		E
Defnydd Clwb Nofio Ynys Môn – yr awr		£30.00		E
Clwb Nofio Ynys Môn - Llogi Lôn		£10.00		E
Defnydd Neilltuedig o'r prif bwll		£72.10		E
Defnydd Neilltuedig o'r pwll bach		£36.10		E
Llogi lôn		£15.50		E
Nofio - defnydd ysgolion - 1 hyfforddwr fesul dosbarth wedi ei gynnwys (30 munud)				
Dosbarth hyd at 14 o blant (angen 1 hyfforddwr)		£33.00		E
15 - 29 o blant (angen 2 hyfforddwr)		£35.00		E
Dros 30 o blant (angen 3 hyfforddwr)		£38.00		E
Hyfforddwr atodol		£14.00		E
Cyfleusterau Awyr Agored				
Ffi Gêm (aelod - oedolyn)		£100.00		E
Ffi Gêm (aelod - consesiynau)		£80.00		E
Ffi Gêm (di-aelod - oedolyn)		£125.00		E
Ffi Gêm (di-aelod - consesiynau)		£100.00		E
Hanner cae 3G (CHPA) (aelod - oedolyn)		£46.00		E
Hanner cae 3G (CHPA) (aelod - consesiynau)		£36.00		E
Hanner cae 3G (CHPA) (di-aelod - oedolyn)		£57.50		E
Hanner cae 3G (CHPA) (di-aelod - consesiynau)		£45.00		E
Cae llawn 3G (CHPA) (aelod - oedolyn)		£76.00		E
Cae llawn 3G (CHPA) (aelod - consesiynau)		£56.00		E
Cae llawn 3G (CHPA) (di-aelod - oedolyn)		£95.00		E
Cae llawn 3G (CHPA) (di-aelod - consesiynau)		£70.00		E
Cyrtiau Allanol (CHA / Ysgol David Hughes) (aelod - oedolyn)		£29.00		E
Cyrtiau Allanol (CHA / Ysgol David Hughes) (aelod - consesiynau)		£21.00		E
Cyrtiau Allanol (CHA / Ysgol David Hughes) (di-aelod - oedolyn)		£36.00		E
Cyrtiau Allanol (CHA / Ysgol David Hughes) (di-aelod - consesiynau)		£26.00		E
Tenis - cost y pen (aelod - oedolyn)		£4.70		E
Tenis - cost y pen (aelod - consesiynau)		£2.60		E
Tenis - cost y pen (di-aelod - oedolyn)		£5.90		E
Tenis - cost y pen (di-aelod - consesiynau)		£3.30		E
Cwrt tenis - defnydd ysgolion		£6.30		E
Llogi Offer				
Pêl / Raced		£2.00		E

Cyrchfan

Gwasanaeth	Ffi/Tâl 1 ^{af} Chwefror	Ffi/Tâl 1 ^{af} Ebrill	Ffi/Tâl Medi	TAW
Pier St. George – Porthaethwy				
Angori yn y pier (fesul arhosiad dros nos)	£18.00			S
Cyflenwad dŵr croyw – cychod bach	Dim tâl			D/B
Cyflenwad dŵr croyw - llongau dros 15 tunnell	£8.00 y dunnell o ddŵr			S
Trwydded Parcio Car (Blynnyddol)	£82.40			S
Golau mordwo dyledus (Masnachol)	£0.35 y dunnell			S
Angori parhaol wrth y pier (dyraniad ar sail achos busnes)	£2,122.00 y flwyddyn			S
Pier Biwmares				
Angori yn y pier (fesul arhosiad dros nos)	£18.00			S
Cyflenwad dŵr croyw – cychod bach	Dim tâl			D/B
Cyflenwad dŵr croyw - llongau dros 15 tunnell	£8.00 y dunnell o ddŵr			S
Trwydded ar gyfer y Ciosg Docynnau (Tymhorol – 1 ^{af} Mawrth – 31ain Hydref)	£464.00			S
Ffioedd Trwydded Angorfa				
Traeth Coch a Cymyran – cyson	£0.65 (fesul metr x arwynebedd)			S
Biwmares, Porthaethwy a Bae Llanfaes – cyson	£1.10 (fesul metr x arwynebedd)			S
Ffi Rhestr Aros	£12.90 y flwyddyn			S
Harbwr Allanol Amlwch				
Angori – iotiau a chychod hamdden yn ymweld	£18.00			S
Ffioedd trwydded angori (pob cwch ac eithrio pysgota masnachol)	£46.10 y metr, y flwyddyn			S
Ffioedd trwydded angori pysgota masnachol	£92.30 y metr, y flwyddyn			S
Cyflenwad dŵr croyw – cychod bach	Dim tâl			D/B
Cyflenwad dŵr croyw - llongau dros 15 tunnell	£8.30 y dunnell o ddŵr			S
Diesel – tancer neu bowser	£50.00			S

Gwerthu Diesel Morol (Dan 1,000 litr)	Gwerth y farchnad + 20%			Z – llongau masnachol yn mynd tu allan i ddyfroedd y DU a chychod yr RNLI
Gwerthu Diesel Morol (Dros 1,000 litr)	Gwerth y farchnad + 15%			S – llongau masnachol ar daith o fewn dyfroedd y DU
Gwerthu Diesel Morol (Dros 2,000 litr)	Gwerth y farchnad + 10%			R – cychod pleser gyda chyflenwad llai na 2,300 litr ar gyfer gyriant yn unig, a chychod preswyl ac elusennol
Gwerthu Diesel Morol (Dros 3,000 litr)	Gwerth y farchnad + 5%			
Ffi storio cwch (compownd / pinau allanol)	£6.00 yr wythnos			S
Ffi gwarchodaeth / harbwr - pob cwch	£71.70			Z – Llong gymwys S – Llongau eraill ²
Harbwr Mewnol Amlwch				
Ffioedd trwydded angori pob cwch ac eithrio pysgota masnachol	£46.10 y metr y flwyddyn			S
Ffioedd trwydded angori pysgota masnachol	£92.30 y metr y flwyddyn			S
Llongau heb drwydded - iotiau a chychod hamdden yn ymweld	£18.00			S
Llongau heb drwydded - ffi gwarchodaeth / harbwr - pob llong	£71.70			Z – Llong gymwys

² I gael arweiniad ar ba gyhoch sy'n cael eu dosbarthu fel llongau cymwys, dilynwch y ddolen ganlynol: <https://www.gov.uk/guidance/ships-aircraft-and-associated-services-notice-744c#ships-and-qualifying-ships>

				S – Llongau eraill ²
Ffi Rhestr Aros	£12.90 y flwyddyn			S
Cofrestru pob cwch pŵer (fan 10hp, dim ffi lansio)				
Cofrestru Blynyddol				
Drwy'r post neu yn Llangefni	£15.00			O/S
Ar y lanfa	£20.00			O/S
Ar lanfeydd preifat mewn partneriaeth (75% Cyngor / 25% gwerthwr)	£20.00			O/S
Ffioedd lansio				
Tâl dyddiol	£16.00			S
Trwydded flynyddol	£160.00			S
Trwydded flynyddol – wedi ei ostwng ar gyfer tystysgrif hyfforddiant cwch pŵer	£105.00			S
Cwmnïau yn lansio i arddangos neu brofi (cytundeb ysgrifenedig)	£87.40			S
Masnachol				
Lansio masnachol ar lanfeydd y Cyngor	£824.00 y cwmni y flwyddyn			S
Cychod diogelwch ar gyfer digwyddiadau	Dim tâl (dal angen cais)			D/B
Ffi gweinyddu trwyddedau cychod siarter masnachol	£50.00			S
Amrywiol				
Defnyddio'r blaendraeth ar gyfer Criwiau Ffilmio/Digwyddiadau ac ati:				
Hanner diwrnod	£460.00			S
Diwrnod llawn	£811.00			S
Cwmnïau Ffilmio Lleol (fesul lleoliad)	£100.00			S
Sefydliadau elusennol yn defnyddio'r blaendraeth	Yn ôl doethineb staff y Swyddogaeth Forol			S
Ffi parcio ym Mharc Gwledig Morglawdd Caergybi:				
Trwydded Flynyddol		£30.00		S
1 awr		£1.00		S
2 awr		£2.00		S
4 awr		£3.00		S
Hyd at 12 awr		£4.00		S
Trwydded Digwyddiadau Masnachol Parc Morglawdd Caergybi:				
Digwyddiad bach, oddeutu 0-250 o bobl	£100.00			I'w gadarnhau
Digwyddiad canolog, oddeuti 250-500 o bobl	£200.00			I'w gadarnhau
Digwyddiad mawr, oddeutu 500+ o bobl	£300.00			I'w gadarnhau

Priffyrdd

Gwasanaeth	Ffi/Tâl 1 ^{af} Chwefror	Ffi/Tâl 1 ^{af} Ebrill	Ffi/Tâl Medi	TAW
Gorchmynion Arallgyfeirio a Diddymu Llwybrau				
Cyngor cychwynnol ac ymweliad safle (hyd at ddwy awr)	Dim tâl			D/B
Tynnu cais yn ôl neu ei wrthod wedi ystyriaeth gan swyddogion	£239.00			O/S
Gwneud gorchymyn, ond ei dynnu'n ôl wedi ei hysbysebu	£829.00			O/S
Gorchymyn sy'n cael ei gadarnhau gan yr Awdurdod heb wrthwynebiad	£1,359.00			O/S
Os ceir gwrthwynebiad i'r gorchymyn ond ei fod yn cael ei dynnu'n ôl.	£1,486.00			O/S
Os derbynnir gwrthwynebiadau a ategir a bod y gorchymyn yn cael ei gyflwyno i Llywodraeth Cymru	£2,547.00			O/S
Ceisiadau lluosog – os yw'r cais yn cynnwys arallgyfeirio mwy nag un llwybr, y ffi ar gyfer pob llwybr atodol a gynhwysir yn yr un gorchymyn	£357.00			O/S
Gorchmynion Arallgyfeirio a Chau Llwybrau Dros Dro				
Argyfwng hyd at 21 diwrnod	£239.00			O/S
Gwaith tymor byr hyd at 5 niwrnod (angen 2 wythnos o rybudd)	£239.00			O/S
Gwaith tymor hirach hyd at 6 mis (angen 6 wythnos o rybudd a 2 hysbyseb)	£1,423.00			O/S
Estyniad ar orchymyn 6 mis (cais i Lywodraeth Cymru) (6 wythnos o rybudd ac 1 hysbyseb)	£945.00			O/S
Gwaith Stryd				
Cofrestriad cwmni sgipiau	£340.00			O/S
Trwydded sgip (1 mis)	£39.00			O/S
Cofrestriad cwmni sgaffaldau	£351.00			O/S
Trwydded sgaffald	£45.00			O/S
Adran 171 (deunyddiau ar y briffordd)	£250.00			O/S
Adran 50 presennol (offer ar y briffordd)	£250.00			O/S
Adran 50 newydd	£350.00			O/S
Cau ffordd	£2,653.00			O/S
Digwyddiadau ar y Briffordd				
Gorchmynion Rheoleiddio Traffig ar gyfer yr Anabl	Cost wirioneddol			O/S
Marciau Amddiffyn Mynediad	£83.00			O/S
Goddefeb Parcio	£19.00			O/S
Cais Arwydd Twristiaeth	£62.40			S

Dylunio a Gosod Arwydd Twristiaeth	Cost Gwirioneddol + Ffioedd			S
Ffioedd Gorchymyn Gwaharddiad Dros Dro				
Gorchymyn gwahardd cerbydau ar gyfer digwyddiad (cau lôn, tua 6 digwyddiad y flwyddyn)	£657.00			O/S
Gorchymyn diwygio traffic ar gyfer digwyddiad (aros cyfyngedig, un ffordd, a.y.y.b., tua 6 digwyddiad y flwyddyn)	£547.00			O/S
Arwydd Twristiaeth	£66.00			O/S
Digwyddiadau graddfa bychan cymunedol neu elusennol	Free			D/B
Ceisiadau Chwilio				
Chwiliad sylfaenol mewn un lleoliad	£69.60			S
Chwiliad sylfaenol mewn hyd at 5 lleoliad	£140.00			S
Chwiliadau Tref Manylach	£272.00			S
Chwiliadau Arwynebedd Manylach	£558.00			S
Cais ar gyfer datblygiadau mawr	£69.60 yr awr			S
SAB (Datrysiad Draenio Cynaliadwy) – penderfyniadau cyn-cais ar gyfer datblygiadau mawr preswyl neu ddi-breswyl	£248.00			S
SAB (Datrysiad Draenio Cynaliadwy) – penderfyniadau cyn-cais ar gyfer datblygiadau bach preswyl neu ddi-breswyl	1 awr am ddim a wedyn graddfa fesul awr safonol staff			S
Meysydd Parcio				
Ceir				
1 awr		£1.00		S
2 awr		£1.80		S
4 awr		£2.50		S
Hyd at 12 awr		£4.00		S
Biwmares				
Bysiau 4 awr		£4.50		S
Bysiau 12 awr		£6.00		S
Ceir 4 awr		£2.50		S
Ceir 12 awr		£3.50		S
Arfordirol				
4 awr		£4.00		S
12 awr		£6.00		S

Trelar		£8.00		S
Rhosneigr, Fron Tywyn & Lôn St Ffraid				
1 awr		£1.50		S
2 awr		£2.50		S
4 awr		£4.00		S
12 awr		£6.00		S
Trelar		£8.00		S
Rhoscolyn				
2 awr		£2.50		S
4 awr		£4.00		S
12 awr		£6.00		S
Trelar		£8.00		S
Cydrannu Llanfairpwll				
1 diwrnod		£0.50		S
2 - 7 diwrnod		£2.00 y dydd		S
Stanley Cresent, Caergybi				
1 diwrnod		£1.00		S
2 – 7 diwrnod		£1.00		S
Tocyn Tymor Parcio				
12 mis		£170.00		S
6 mis		£120.00		S
Prisiau Meysydd Parcio Arall				
Meddiant maes parcio (compownd bach, 4-6 bae)		£80.00 i £100.00 yr wythnos		S
Meddiant maes parcio (compownd mawr)		Hyd at £250.00		S
Stondin farchnad mewn maes parcio		£5.00		S
NODER: Nodwch, os gwelwch yn dda, bydd gwasanaethau sydd angen mewnbwn gan Gwasanaethau Cyfreithiol yn denu costau ychwanegol amrywiol.				

Rheoli Gwastraff

Gwasanaeth	Ffi/Tâl 1 ^{af} Chwefror	Ffi/Tâl 1 ^{af} Ebrill	Ffi/Tâl Medi	TAW
Bin olwynion du newydd neu amnewid ar gyfer gwastraff gweddilliol (tâl danfon a gweinyddu yn unig, nid gwerthu biniau olwynion du)	£34.00			S
Casglu gwastraff swmpus 'A' (hyd at 4 eitem fesul casgliad)	£30.00			O/S
Casglu gwastraff swmpus 'B' (hyd at ½ tunnell y llwyth)	£96.00			O/S
Casglu gwastraff swmpus 'B' (hyd at 1½ tunnell y llwyth)	£248.00			O/S
Gwerthu allwedd radar	£6.60			E
Gwerthu biniau compost (prynu, danfon a gweinyddu)	£36.00			S
Taliadau casglu/gwaredu sbwriel masnach	Gwir gyfradd gyfredol a godir gan gontractwr casglu gwastraff y Cyngor a thâl gweinyddol o 20%			S
Holl Ffioedd Eraill				
e.e.: <ul style="list-style-type: none"> • Gadael troli siopa a bagiau • Cael gwared ar fagiau sbwriel • Llogi biniau olwynion ar gyfer digwyddiadau a drefnwyd • Cyfleusterau cyhoeddus - agor atodol 	Costau atodol sy'n codi a thâl gweinyddol 20%			Amrywiol

Cyfreithiol

Gwasanaeth	Ffi/Tâl 1 ^{af} Chwefror	Ffi/Tâl 1 ^{af} Ebrill	Ffi/Tâl Medi	TAW
Taliadau Tir Lleol				
Chwilio (CON29R)	£146.00			S
Ffurflen LLC1	£6.00			O/S
Ar-lein LLC1	£4.00			O/S
Con 29O (ac eithrio cwestiwn 22)	£14.40			S
Cwestiwn 29O: cwestiwn 22 (tir comin)	£19.70			S
Ffioedd Cyfreithiol Dewisol				
Rhwymedigaethau cynllunio (cytundebau adran 106)				
Annedd fforddiadwy sengl hunan adeiladu	£591.00			O/S
Bydd yr holl drefniadau eraill (ar gyfer 3 awr o waith, cyfradd fesul awr perthnasol yn cael ei godi ar yr amser a dreuliyd dros 3 awr, gweler y cyfraddau isod)	£887.00			O/S
Gweithredoedd rhyddhau syml / Gweithred Amrywiad	£282.00			O/S
Gwerthu tir neu Ganiatáu prydlesau				
Os na phenodir cyfreithiwr, gan barti arall (ar gyfer 3 awr o waith, cyfradd fesul awr perthnasol yn cael ei godi ar yr amser a dreuliyd dros 3 awr, gweler y cyfraddau isod)	£640.00			S
Os penodir cyfreithiwr, gan barti arall (ar gyfer 6 awr o waith, cyfradd fesul awr perthnasol yn cael ei godi ar yr amser a dreuliyd dros 6 awr, gweler y cyfraddau isod)	£1,280.00			S
Grantiau o brydlesi (i gynnwys amrywiadau, aseiniadau a datganiadau) pan mae eiddo wedi ei optio i mewn i'r dreth, y TAW a godir yw'r graddfa safonol. Pan nad ydyw wedi optio i mewn i'r dreth, mae'r TAW y tu allan i'r sgôp.	Gwir amser a dreuliyd ar raddfa yr awr perthnasol*			S
Cytundebau adran 38 a 278 (Deddf Priffyrdd)	£887.00			O/S
Cais Dargyfeirio Gorchmynion Traffig dros dro (fel cau, dargyfeirio a gorchmynion traffig dros dro) ar gyfer 4.5 awr o waith, cyfradd fesul awr perthnasol yn cael ei godi ar yr amser a dreuliyd dros 4.5 awr)	£535.00			O/S
Cofrestr Tir Comin				
Cywiro camgymeriad arall dan Adran 19(2)(b)	£335.00			l'w gadarnhau

Diweddarau enwau a chyfeiriadau dan Adran 19 (2)(d)	£55.80			l'w gadarnhau
Cydgrynhoi dilysiad dan Adran 19 (2)(e)	£55.80			l'w gadarnhau
Ceisiadau dan Atodiad 2, paragraffau 6 i 9 cynhwysol (adeiladau a gofrestrir fel tir comin neu grîn tref a phentref neu tir a gofrestrwyd yn anghywir fel tir comin neu grîn tref neu phentref)	£2,165.00			l'w gadarnhau
*Cyfraddau fesul awr priodol				
Pennaeth Swyddogaeth, Reolwr Gwasanaethau Cyfreithiol neu Gyfreithiwr	£178.00			Codir TAW yn gyson â'r ymholiad mae'n ymwneud â hi
Unrhyw staff eraill sy'n ennill ffi	£107.00			
SYLWER - bydd gan y Pennaeth Swyddogaeth neu Reolwr Gwasanaethau Cyfreithiol, yn ôl ei ddoethineb, y pŵer i hepgor y ffi mewn rhai achosion o galedi ariannol profedig.				

This page is intentionally left blank

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
Adroddiad i:	Pwyllgor Gwaith a Cyngor Llawn
Dyddiad:	16.12.2019 a 10.03.2020
Pwnc:	Diwygio Cyfansoddiad y Cyngor i adlewyrchu'r ailstrwythuriad mewnol i'r model staffio.
Aelod(au) Portffolio:	Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas
Pennaeth Gwasanaeth:	Lynn Ball
Awdur yr Adroddiad: Rhif Ffôn: E-bost:	Lynn Ball (Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro)
Aelodau Lleol:	Ddim yn fater i ward benodol

A – Argymhelliad/Argymhellion a'r Rheswm/Rhesymau
<p><u>Cefndir</u></p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Mae penderfyniad wedi'i wneud gan y Prif Weithredwr i newid strwythur staffio'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Penaethiaid Gwasanaeth. Mae'r Pwyllgor Penodiadau wedi gwneud penodiadau'n unol â'r newidiadau hynny. 2. Mae'r strwythur staffio diwygiedig i gael ei adlewyrchu yng Nghyfansoddiad y Cyngor a'r ddirprwyaeth a roddwyd i bob aelod o'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth i gael ei ddiweddarau yn unol â hynny. <p><u>Trosolwg</u></p> <ol style="list-style-type: none"> 3. Mae'r newidiadau i'r strwythur staffio yn cynnwys: <ol style="list-style-type: none"> (a) Newid i deitlau swyddi a manylebau aelodau o'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth / Penaethiaid Gwasanaeth; (b) Diddymu dwy rôl Prif Weithredwr Cynorthwyol; (c) Creu un rôl Dirprwy Brif Weithredwr; (d) Diddymu dwy rôl Pennaeth Swyddogaeth; (e) Creu pum rôl Cyfarwyddwr newydd; a (f) Newid y llinellau adrodd ar gyfer rhai aelodau o'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Penaethiaid Gwasanaeth.

4. Mae'r Cyfansoddiad, yn Rhan 7, yn cynnwys fformat strwythur. Mae'r hyn a ymddengys yn y Cyfansoddiad ar hyn o bryd yn adlewyrchu'r fformat blaenorol. Mae hyn wedi'i gynnwys fel **Atodiad 1** i'r adroddiad hwn.
5. Paratowyd fformat diwygiedig i adlewyrchu'r newidiadau uchod ac mae hyn wedi'i gynnwys fel **Atodiad 2** i'r adroddiad hwn. Argymhellir bod **Atodiad 2** yn cael ei gynnwys yn Rhan 7 o'r cyfansoddiad (yn hytrach nag Atodiad 1).

Diwygiadau posibl i'r Cyfansoddiad heb gymeradwyaeth y Cyngor Sir.

6. Yn unol â pharagraff 3.5.2.11 o'r Cyfansoddiad: *“Bydd gan y Prif Weithredwr awdurdod i ddiwygio teitlau swyddi, a meysydd cyfrifoldeb yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth, Penaethiaid Swyddogaeth a'r Penaethiaid Gwasanaeth fel y bydd ef / hi yn ei ystyried yn angenrheidiol er mwyn darparu swyddogaethau'r Cyngor, gweledigaeth a blaenoriaethau ac o ganlyniad i ad-drefnu staff, mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Adran 151, Swyddog Monitro, Pennaeth Proffesiwn / AD a'r Deilydd(ion) Portffolio perthnasol. Bydd unrhyw newidiadau o'r fath o fewn cyllideb ac yn cydymffurfio â pholisïau a phrosesau AD y Cyngor...”*
7. Yn unol â pharagraff 3.5.3.6.6 y Cyfansoddiad, fel Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro, mae gennyf y ddirprwyaeth i: *“adolygu a diweddarau Cyfansoddiad y Cyngor o bryd i'w gilydd, i gynnwys unrhyw newidiadau achlysurol sy'n deillio o ddeddfwriaeth ddiwygiedig, deddfwriaeth sy'n cymryd lle un arall neu ddeddfwriaeth newydd; unrhyw ailstrwythuro o'r sefydliad sydd eisoes wedi ei awdurdodi fel bo'r angen ac i gynnwys dirprwyaethau newydd i swyddogion, sef y Pennaeth Gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb am y gwasanaeth perthnasol, i gael awdurdod dirprwyedig llawn i gyflawni'r swyddogaeth ar ran y Cyngor, oni bai ei bod yn fater sydd wedi ei neilltuo i'r Cyngor, Pwyllgor Gwaith neu Bwyllgor.”*
8. Yn unol â'r ddirprwyaeth ym mharagraff 3.5.2.11, mae gan y Prif Weithredwr yr awdurdod wedi'i ddirprwyo felly i addasu teitlau a chyfrifoldebau swyddi ar gyfer yr UDA a Phenathiaid Swyddogaeth a Gwasanaethau (yn amodol ar ymgynghoriad).
9. Fel rhan o'r ymgynghoriad, mae'r Prif Weithredwr wedi cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Penodiadau, er nad yw ymgynghoriad o'r fath yn orfodol. Does gan y Pwyllgor Penodiadau ddim awdurdod i gytuno ar y newidiadau strwythurol, dim ond i argymhell / penodi unigolion i rolau newydd / diwygiedig.
10. Mae'r newidiadau canlynol o fewn dirprwyaeth y Prif Weithredwr i'w gwneud ac mae awdurdod wedi'i ddirprwyo i'r Swyddog Monitro i weithredu unrhyw newidiadau o'r fath i'r Cyfansoddiad ei hun (sef, addasu teitlau swyddi a'r cyfrifoldebau a'r dirprwyaethau ar gyfer y rolau diwygiedig hynny):

Teitl Blaenorol	Teitl Newydd	Paragraff Perthnasol yn y Cyfansoddiad ar gyfer awdurdod dirprwyedig
Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog a151	Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog a151	3.5.3.5
Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro	Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro	3.5.3.6
Pennaeth Gwasanaeth (Gwasanaethau Oedolion)	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol	3.5.3.7
Pennaeth Gwasanaeth (Gwasanaethau Plant)	Pennaeth Gwasanaeth: Plant a Theuluoedd a Dirprwy Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol	3.5.3.8
Pennaeth Proffesiwn, AD a Gwasanaeth Trawsnewid Corfforaethol	Pennaeth Proffesiwn AD a Gwasanaeth Trawsnewid	3.5.3.9
Pennaeth Gwasanaeth (Rheoleiddio a Datblygu Economaidd)	Cyfarwyddwr Lle a Llesiant Cymunedol	3.5.3.10
Pennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo)	Pennaeth Gwasanaeth: Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo	3.5.3.11
Pennaeth Gwasanaeth (Tai)	Pennaeth Gwasanaeth: Tai	3.5.3.12
Pennaeth Gwasanaeth (Dysgu)	Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc	3.5.3.13

Newidiadau i'r Cyfansoddiad yn dilyn cymeradwyaeth y Cyngor.

11. Mae'r Cyfansoddiad yn nodi'n glir o dan paragraff 2.15.2.1 "*Ni fydd y Cyngor llawn yn cymeradwyo newidiadau i'r Cyfansoddiad hyd oni fydd y Pwyllgor Gwaith wedi ystyried y cynnig...*" Dyma'r sail ar gyfer yr adroddiad hwn sy'n gofyn am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor Llawn i'r newidiadau eraill i strwythur y Cyngor.
12. Yn y strwythur blaenorol, roedd hierarchaeth a oedd yn cynnwys y Prif Weithredwr a dau Brif Weithredwr Cynorthwyol ac wedi'u cynnwys gyda nhw o fewn yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth roedd Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog a151 a'r Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro. Roedd yna hefyd 7 Pennaeth Gwasanaeth (nad oeddent yn aelodau o'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth). (Gellir gweld hyn yn **Atodiad 1.**)
13. Yn y strwythur newydd (**Atodiad 2**), mae'r ddwy rôl Dirprwy Brif Weithredwr Cynorthwyol yn cael eu diddymu ac mae un rôl newydd sef Dirprwy Brif Weithredwr yn cael ei chreu:

Teitl Blaenorol	Teitl Newydd	Paragraff Perthnasol yn y Cyfansoddiad ar gyfer yr awdurdod dirprwyedig
Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethiant a Thrawsnewid Prosesau Busnes)	<i>Dileu</i>	3.5.3.2
Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaeth, Cymuned a Gwella Gwasanaeth)	<i>Dileu</i>	3.5.3.3
<i>Dim</i>	Dirprwy Brif Weithredwr	3.5.3.2

14. Mae'r strwythur newydd hefyd yn addasu'r llinellau adrodd rhwng y Penaethiaid Gwasanaeth a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth; mae'r newid hwn yn digwydd o ganlyniad i gyflwyno Cyfarwyddwyr. Yn ogystal, er y bydd Tai yn parhau i fod yn Wasanaeth annibynnol, bydd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 yn rheolwr llinell i'r Pennaeth Gwasanaeth: Tai.
15. Mae cyfanswm o bum rôl Cyfarwyddwyr wedi eu creu. Tra bo'r rolau yn rhai newydd, maent yn ddiwygiad i'r strwythur ar gyfer unigolion sydd eisoes yn y swyddi fel Pennaeth Swyddogaeth/Gwasanaeth. Bydd y pum Cyfarwyddwr ynghyd â'r Dirprwy Brif Weithredwr a'r Prif Weithredwr yn ffurfio'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth.

16. Mae yna bellach bedwar Pennaeth Gwasanaeth ac mae eu rolau'n aros fel y maent, er bod y Pennaeth Gwasanaeth Plant a Theuluoedd wedi'i benodi yn Ddirprwy Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'r teitlau wedi'u diwygio ychydig bach.
17. Mae **Atodiad 3** yn cynnwys crynodeb o'r prif newidiadau a wnaed i awdurdod dirprwyedig rhai o'r swyddogaethau uchod dan y Cyfansoddiad. Nid yw pob swyddogaeth a/neu newidiadau wedi'u cynnwys (e.e. ble mae terminoleg wedi cael ei newid / ychwanegiadau wedi eu gwneud er mwyn cael cysondeb ar draws holl swyddogaethau'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth / Penaethiaid Gwasanaeth, ni chawsant eu cynnwys).
18. O ganlyniad i'r haen newydd o Gyfarwyddwyr, mae angen penderfyniad o ran rôl y Pwyllgor Penodiadau pan fydd angen gwneud penodiadau ar lefel Cyfarwyddwr. Mae cylch gwaith y Pwyllgor Penodiadau wedi'i gynnwys o dan baragraff 3.4.9 o'r Cyfansoddiad. Ar y sail bod yr haen ar yr un lefel â'r Swyddog a 151 a'r Swyddog Monitro, gwneir rhagdybiaeth y bydd penodiadau Cyfarwyddwyr yn y dyfodol yn cael eu gwneud o dan y ddarpariaeth a nodir yn 3.4.9.2 h.y. bydd y Pwyllgor Penodiadau yn cyfweld ac yn penodi unigolion i'r swydd.

ARGYMHELLIAD:

19. Bod y Cyngor llawn:

- 19.1 Yn nodi'r newidiadau ac yn cadarnhau ei fod yn cytuno â'r strwythur newydd fel y mae yn **Atodiad 2** sydd yn dangos:-
- newid i deitlau swyddi a manylebau aelodau o'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth / Penaethiaid Gwasanaeth;
 - diddymu dwy rôl y Prif Weithredwyr Cynorthwyol;
 - creu un rôl Dirprwy Brif Weithredwr;
 - diddymu dwy rôl Pennaeth Swyddogaeth;
 - creu pum rôl Cyfarwyddwr newydd; a
 - newid y llinellau adrodd ar gyfer rhai aelodau o'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Penaethiaid Gwasanaeth.
- 19.2 Cadarnhau ei fod yn cymeradwyo cynnwys **Atodiad 2** yng Nghyfansoddiad y Cyngor.
- 19.3 Cadarnhau ei fod yn cymeradwyo'r newidiadau i'r awdurdod dirprwyedig yn **Atodiad 3**; a
- 19.4 Cadarnhau ei fod yn cymeradwyo unrhyw benodiadau i swydd Cyfarwyddwr yn y dyfodol gael eu gwneud gan y Panel Penodiadau; a
- 19.5 Cadarnhau ei fod yn cymeradwyo i unrhyw newidiadau ôl-ddilydol eraill gael eu gwneud i'r Cyfansoddiad er mwyn adlewyrchu'r argymhellion uchod.

B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?

Mae gan y Prif Weithredwr yr awdurdod dirprwyedig i ddiwygio teitlau swyddi a meysydd o gyfrifoldeb. Tra bo rhai o'r newidiadau arfaethedig i'r strwythur staffio yn disgyn o fewn yr awdurdod dirprwyedig – ac awdurdod dirprwyedig y Swyddog Monitro i ddiwygio'r Cyfansoddiad er mwyn adlewyrchu'r penderfyniadau hynny – mae angen cymeradwyaeth y Cyngor llawn i wneud rhai newidiadau eraill.

Cyflwynir yr adroddiad i'r Cyngor ar gyfer cymeradwyo'r Cyfansoddiad i adlewyrchu'r newidiadau a wnaed i'r Strwythur Uwch Reolwyr gan gynnwys:

- diddymu'r ddwy swydd Prif Weithredwr Cynorthwyol a chreu un Swydd Dirprwy Brif Weithredwr;
- cyflwyno haen newydd o Gyfarwyddwyr; a
- diwygio'r llinellau cyfrifoldeb o ganlyniad i'r categori newydd o Gyfarwyddwyr ar yr Uwch Dîm Rheoli.

Dylid diweddarau'r Cyfansoddiad er mwyn adlewyrchu strwythur presennol y Cyngor.

C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Mae paragraff 2.15.2.1 o'r Cyfansoddiad yn nodi “*Ni fydd y Cyngor llawn yn cymeradwyo newidiadau i'r Cyfansoddiad hyd oni fydd y Pwyllgor Gwaith wedi ystyried y cynnig...*”

CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Amh

D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

Ailstrwythurwyd y Tîm Rheoli Corfforaethol yn 2015/16 pan gytunodd CSYM i gael Prif Weithredwr a dau Brif Weithredwr Cynorthwyol. Y gyllideb yn 2014/15 oedd £961k. Yn dilyn yr ailstrwythuro, bu gostyngiad yn y gyllideb i £682k.

Yn unol â'r ailstrwythuro presennol h.y. Prif Weithredwr, un Dirprwy Brif Weithredwr a phum Cyfarwyddwr, mae'r gyllideb ddrafft ar gyfer 2020/21 wedi gostwng i £568k.

Mae'r gyllideb yn newid bob blwyddyn i ganiatáu ar gyfer y dyfarniad cyflog. Os ystyrir cyllideb 2014/15 yn ôl prisiau 2020/21, mae'r ffigwr hwn yn £1.08m. Mae hyn 90% yn uwch na'r gyllideb wirioneddol ar gyfer 2020/21 (£568k).

O ganlyniad, mae'r ailstrwythuro presennol yn golygu y bydd CSYM yn arbed arian.

DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?		Beth oedd eu sylwadau?
1	Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (mandadol)	Penderfyniad i ddiwygio'r Strwythur Uwch Reolwyr wedi'i wneud gan y Prif Weithredwr blaenorol. Ymgynghorwyd ag Aelodau'r UDA fel rhan o'r broses ymgynghori AD ar y pryd.
2	Cyllid / Adran 151 (mandadol)	Cwblhawyd Adran D yr adroddiad hwn gan y Swyddog Adran 151.
3	Cyfreithiol / Swyddog Monitro (mandadol)	Awdur yr adroddiad hwn.
4	Adnoddau Dynol (AD)	Sylwadau wedi'u cynnwys fel rhan o'r adroddiad hwn.
5	Eiddo	Amh
6	Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)	Amh
7	Caffael	Amh
8	Sgriwtini	Amh
9	Aelodau Lleol	Amh
10	Unrhyw gyrrff allanol eraill	Amh


E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)	
1	Economaidd
2	Gwrthlodi
3	Trosedd ac Anhrefn
4	Amgylcheddol
5	Cydraddoldebau
6	Cytundebau Canlyniad
7	Arall

F - Atodiadau:	
Atodiad 1	Strwythur Presennol yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth – i'w ddiddymu o'r Cyfansoddiad
Atodiad 2	Strwythur Arfaethedig yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth – i'w gynnwys yn y Cyfansoddiad
Atodiad 3	Crynodeb o'r prif newidiadau Cyfansoddiadol i awdurdod dirprwyedig aelodau penodol o'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth / Penaethiaid Gwasanaeth

FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):


Strwythur Uwch Dim Arwain a Phenaethiaid Gwasanaeth Cyngor Sir Ynys Môn

Tudalen 108



Cyngor Sir Ynys Môn
Strwythur yr Uwch Dîm Rheoli / Penaethiaid Gwasanaeth

Tudalen 109



Teitl Blaenorol	Teitl Newydd	Newidiadau i'r Cyfansoddiad
x2 rôl Prif Weithredwr Cynorthwyol	----	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r ddwy rôl wedi eu dileu Mae'r awdurdod dirprwyedig ym mharagraffau 3.5.3.2 a 3.5.3.3 wedi ei ddileu
----	Dirprwy Brif Weithredwr	<ul style="list-style-type: none"> Mae un rôl ar gyfer Dirprwy Brif Weithredwr yn cael ei greu. Mae'r rôl newydd yn cyfuno rhai o gyfrifoldebau / awdurdod dirprwyedig y ddau Brif Weithredwr Cynorthwyol blaenorol ac yn cynnwys mwy o gyfrifoldebau (yn unol â'r swydd ddisgrifiad) ac eraill er mwyn sicrhau cysondeb rhwng gwahanol aelodau'r UDA. Fe'i crëir dan baragraff 3.5.3.2 y Cyfansoddiad. <p><i>3.5.3.2.1 ymgymryd â swyddogaethau aelod o'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth a chydweithio â'r Prif Weithredwr i gyflawni gweledigaeth, gwerthoedd a strategaethau'r Cyngor; cynllunio strategol a busnes, perfformiad a pholisi, sicrhau llywodraethiant corfforaethol a democrataidd da, a hyrwyddo gwelliant parhaus.</i></p> <p><i>3.5.3.2.2 cydweithio â'r Prif Weithredwr gan gynghori a rhoi arweiniad i'r Cyngor a'i Bwyllgor Gwaith ar opsiynau strategol a pholisi o bwys; gweithredu fel llysgennad i'r Cyngor a bod yn gyfrifol am feithrin a chynnal perthnasau gyda budd-ddeiliaid mewnol ac allanol pan fo gofyn; sicrhau bod llywodraethiant a gwasanaethau allweddol y Cyngor yn gwella'n barhaus.</i></p> <p><i>3.5.3.2.3 cyflawni'r swyddogaethau o ddarparu arweinyddiaeth strategol, cyfarwyddyd a chyngor proffesiynol ar faterion strategol a gweithredol ac ymdrechu'n gyson am ragoriaeth yn y sefydliad.</i></p> <p><i>3.5.3.2.4 gweithredu fel yr aelod cyswilt o'r UDA i wasanaethau penodol (mae'n bosib y bydd hyn yn amrywio o bryd i'w gilydd) er mwyn darparu her, mentoriaeth a rheolaeth perfformiad i'r Cyfarwyddwyr a'r Penaethiaid Gwasanaeth a bydd hynny'n cynnwys defnyddio adnoddau, cysoni'r cynllun gwasanaeth a'i amcanion gyda blaenoriaethau corfforaethol, ac ymdrechu'n gyson am ragoriaeth yn y sefydliad.</i></p> <p><i>3.5.3.2.5 trwy fentora a bod yn fodel rôl, ysgogi'r staff i wireddu gweledigaeth y sefydliad a'r newid diwylliant sydd ei angen.</i></p> <p><i>3.5.3.2.6 mewn ymgynghoriad, ble mae hynny'n briodol, â'r aelodau portffolio perthnasol ar y pwyllgor gwaith, arwain ar a chyflawni rhaglen drawsnewid allweddol y Cyngor o bryd i'w gilydd (e.e. arferion busnes mewnol, cynllunio lle, moderneiddio ysgolion, trawsnewid gwasanaethau cymdeithasol i blant ac oedolion, hamdden ac ati) (nid yw'r rhestr hon yn hollgynhwysol)</i></p> <p><i>3.5.3.2.7 mewn ymgynghoriad, ble mae hynny'n briodol, â'r aelodau portffolio perthnasol ar y pwyllgor gwaith, arwain a chyflawni partneriaethau ehangach y Cyngor megis y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, Cymunedau Diogelach, GwE a mentrau gwasanaeth rhanbarthol eraill, Cyngorau Tref a Chymuned, Heddlu Gogledd Cymru (e.e. camdriniaeth ddomestig, llinellau cyffuriau, Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACE) ac ati (nid yw'r rhestr hon yn hollgynhwysol)</i></p> <p><i>3.5.3.2.8 arwain ar y blaenoriaethau Cyngor-gyfan canlynol e.e. safonau Iaith Gymraeg; datblygiad economaidd ac ymdeimlad o le; prosiectau seilwaith mawr; moderneiddio ysgolion; sipsiwn a theithwyr; strategaeth atal; diogelwch cymunedol; iechyd a diogelwch; caethwasiaeth fodern (nid yw'r rhestr hon yn hollgynhwysol)</i></p> <p><i>3.5.3.2.9 Gweithio gyda'r Prif Weithredwr i ymgysylltu â rhaglenni rhanbarthol/cenedlaethol tra'n chwilio am ffyrdd o gynnal gallu'r sefydliad i siapio a dylanwadu ar ddatblygiadau allweddol y tu draw i ffiniau Ynys Môn</i></p> <p><i>3.5.3.2.10 yn absenoldeb y Prif Weithredwr ac fel y Dirprwy enwebedig i'r Prif Weithredwr, gweithredu'r pwerau sydd wedi'u dirprwyo i'r Prif Weithredwr</i></p> <p><i>3.5.3.2.11 gan gydweithio â'r Cyfarwyddwr, Pennaeth Gwasanaeth a/neu'r Pennaeth Swyddogaeth perthnasol, arwain ar ddatblygu a</i></p>

		<p><i>chyflawni strategaeth gyfreithiol, cyllid ac adnoddau dynol gyffredinol y Cyngor; gan sicrhau bod gwasanaethau'n cydymffurfio â safonau cyrff rheoleiddio Cymru a'r DU.</i></p> <p><i>3.5.3.2.12 goruchwyllo'r gwaith o greu a gweithredu fframweithiau rheoli perfformiad cadarn ar draws y Cyngor fel bod y canlyniadau i ddinasyddion yn cael eu monitro a'u gwella a bod gweithwyr yn cael sesiynau hunanwerthuso rheolaidd, datblygiadol.</i></p> <p><i>3.5.3.2.13 arwain ar ddatblygu lle er mwyn adeiladu ar yr ymgysylltiad gyda chydranddeiliaid a fydd yn cyflawni'r fenter strategol hon sy'n cysylltu'r sectorau cyhoeddus, preifat a chymunedol i drawsnewid yr Ynys yn un o'r prif lefydd i fyw, gweithio, buddsoddi ynddi ac ymweld â hi.</i></p> <p><i>3.5.3.2.14 diffinio a datblygu'r ymagwedd amlasiantaethol tuag at ymgysylltiad gyda busnesau a chymunedau a'r rhwydweithiau proffesiynol sydd eu hangen. Bydd y swydd hon yn arwain ar y goblygiadau allanol.</i></p> <p><i>3.5.3.2.15 gwneud unrhyw ddyletswyddau sydd wedi'u nodi yn y disgrifiad swydd perthnasol fel caiff ei ddiwygio o bryd i'w gilydd ac fel sy'n ofynnol gan y Prif Weithredwr.</i></p>
Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog 151	Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog 151	<ul style="list-style-type: none"> • Newid teitl (O Bennaeth i Gyfarwyddwr) • Dau gymal ychwanegol er mwyn adlewyrchu'r swydd ddisgrifiad / beth sydd eisoes yn ymddangos o fewn dirprwyaeth aelodau eraill yr UDA: <p><i>3.5.3.5.21 fel aelod o'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth sicrhau fod arweinyddiaeth Gorfforaethol yn effeithiol a bod gwasanaethau cyfreithiol, cyllidol ac adnoddau dynol yn cydymffurfio â safonau cyrff rheoleiddio Cymru a'r DU.</i></p> <p><i>3.5.3.5.22 gweithredu fel rheolwr llinell ar gyfer Pennaeth Gwasanaeth: Tai</i></p>
Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro	Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro	<ul style="list-style-type: none"> • Newid teitl (O Bennaeth i Gyfarwyddwr) • Yr un peth â'r uchod – mae'r un cymalau yn cael eu mewnbynnu – ar gyfer unfurfiaeth: <p><i>3.5.3.6.7 fel aelod o'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth sicrhau fod arweinyddiaeth Gorfforaethol yn effeithiol a bod gwasanaethau cyfreithiol, cyllidol ac adnoddau dynol yn cydymffurfio â safonau cyrff rheoleiddio Cymru a'r DU.</i></p>
Pennaeth Gwasanaeth (Gwasanaethau Oedolion)	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol	<ul style="list-style-type: none"> • Newid teitl (O Bennaeth i Gyfarwyddwr) • Deg cymal newydd wedi eu mewnbynnu er mwyn adlewyrchu'r cyfrifoldebau ychwanegol fel Cyfarwyddwr (yn unol â'r swydd ddisgrifiad) ac er mwyn sicrhau cysondeb efo eraill ar lefel Cyfarwyddwr: <p><i>3.5.3.7.29 ymarfer y swyddogaethau fel aelod o'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth gan ddarparu arweinyddiaeth, gweledigaeth a chyfeiriad strategol ar gyfer y Cyngor er mwyn cyflawni blaenoriaethau ac amcanion corfforaethol y Cyngor.</i></p> <p><i>3.5.3.7.30 arwain ar ddatblygu ymateb y Cyngor i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 drwy gefnogi plant, pobl ifanc ac oedolion sydd "mewn perygl" a strategaethau sy'n caniatáu i oedolion hyn fod mor annibynnol â phosibl (mae hyn yn cynnwys gweithio mewn partneriaeth ag amrediad o bartneriaid mewnlol ac allanol gan gynnwys y Bwrdd Iechyd Lleol, y trydydd sector, y sector annibynnol, Cyngorau Tref a Chymuned ac ati (nid yw'r rhestr hon yn holl-gynhwysol).</i></p> <p><i>3.5.3.7.31 fel aelod o'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth sicrhau fod arweinyddiaeth Gorfforaethol yn effeithiol a bod gwasanaethau cyfreithiol, cyllidol ac adnoddau dynol yn cydymffurfio â safonau cyrff rheoleiddio Cymru a'r DU.</i></p> <p><i>3.5.3.7.32 yn atebol am ansawdd a darparu gwasanaethau ar gyfer cyflawni swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol (gan gynnwys sicrhau trefniadau diogelu effeithiol; meithrin perthnasau cydweithio effeithiol y tu mewn a'r tu allan i'r awdurdod lleol a gyrru'r gwaith i sicrhau gwell canlyniadau (nid yw'r rhestr hon yn holl-gynhwysol)) ac arwain ar ddatblygu gweledigaeth glir ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol sydd</i></p>

		<p>wedi'i dylunio i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel</p> <p>3.5.3.7.33 arwain ar ddatblygu strategaeth Atal sydd wedi'i dylunio i gefnogi pobl o bob oedran er mwyn gwneud cymunedau a theuluoedd yn fwy gwydn gyda hynny'n cyfrannu'n sylweddol at raglen atal a rheoli galw'r Cyngor;</p> <p>3.5.3.7.34 bod â chyfrifoldeb holl-gynhwysfawr am y strategaeth ar gyfer cefnogi Sipsiwn a Theithwyr;</p> <p>3.5.3.7.35 fel aelod o'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth, cyfrannu tuag at ddatblygu strategaethau a datblygiadau ar gyfer Cymunedau Diogelach;</p> <p>3.5.3.7.36 gweithredu fel yr aelod cyswllt o'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth gyda gwasanaethau penodol (a all amrywio o dro i dro) er mwyn darparu her, cymorth mentora ac, yn y pen draw, rheoli perfformiad i Benaethiaid Gwasanaeth gan gynnwys y defnydd o adnoddau, aliniad y cynllun gwasanaeth ac amcanion gyda blaenoriaethau corfforaethol gan anelu'n gyson tuag at sicrhau rhagoriaeth sefydliadol.</p> <p>3.5.3.7.37 i gynrychioli'r Cyngor ar y Bwrdd Partneriaethau Rhanbarthol</p> <p>3.5.3.7.38 sicrhau bod y gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth (IAA) yn effeithiol o ran cefnogi pobl i gyflawni eu canlyniadau llesiant.</p>
Pennaeth Gwasanaeth (Gwasanaethau Plant)	Pennaeth Gwasanaeth: Plant a Theuluoedd a Dirprwy Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol	<ul style="list-style-type: none"> Newid teitl (l gynnwys rôl Dirprwy Gyfarwyddwr) Un cymal newydd wedi ei gynnwys er mwyn adlewyrchu'r cyfrifoldeb ychwanegol fel Dirprwy Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol: 3.5.3.8.11 Bydd yn ymgymryd â rôl statudol y Cyfarwyddwr Gwasanaeth Cymdeithasol yn absenoldeb y Cyfarwyddwr Gwasanaeth Cymdeithasol, fel y cânt eu cynnwys mewn unrhyw Brotocol a all gael ei ddiwygio o bryd i'w gilydd yn unol â deddfwriaeth ac/neu ddewis lleol.
Pennaeth Proffesiwn, AD a Gwasanaeth Trawsnewid Corfforaethol	Pennaeth Proffesiwn AD a Gwasanaeth Trawsnewid	<ul style="list-style-type: none"> Newid teitl (rhywfaint) yn unol â'r swydd ddisgrifiad ac i sicrhau cysondeb yn fformat teitlau swyddi pawb sydd â'r un rôl o ran swyddi
Pennaeth Gwasanaeth (Rheoleiddio a Datblygu Economaidd)	Cyfarwyddwr Lle a Llesiant Cymunedol	<ul style="list-style-type: none"> Newid teitl (O Bennaeth i Gyfarwyddwr) Saith cymal newydd wedi eu mewnbynnu er mwyn adlewyrchu'r cyfrifoldebau ychwanegol fel Cyfarwyddwr (yn unol â'r swydd ddisgrifiad) ac er mwyn sicrhau cysondeb efo eraill ar lefel Cyfarwyddwr: <ul style="list-style-type: none"> 3.5.3.10.36 darparu cyngor ac arweinyddiaeth broffesiynol i'r Cyngor a'i Bwyllgorau, yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth, gan sicrhau gwelliant parhaus a gyrru'r rhaglen foderneiddio yn y Gwasanaeth 3.5.3.10.37 ymarfer y swyddogaethau fel aelod o'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth gan ddarparu arweinyddiaeth, gweledigaeth a chyfeiriad strategol ar gyfer y Cyngor er mwyn cyflawni blaenoriaethau ac amcanion corfforaethol y Cyngor ac arwain ar faterion Lle a Llesiant Cymunedol. 3.5.3.10.38 arwain ar y rhaglen cynllunio lle drwy gydlynu'r swyddogaethau economaidd, amgylcheddol, twristiaeth a llesiant cymunedol, ysbrydoli llesiant, gwydnwch ac ymgysylltiad cymunedol er mwyn datblygu cynlluniau llesiant sy'n alinio ag egwyddorion Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. 3.5.3.10.39 gweithredu fel yr aelod cyswllt o'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth gyda gwasanaethau penodol (a all amrywio o dro i dro) er mwyn darparu her, cymorth mentora ac, yn y pen draw, rheoli perfformiad i Benaethiaid Gwasanaeth gan gynnwys y defnydd o adnoddau, aliniad y cynllun gwasanaeth ac amcanion gyda blaenoriaethau corfforaethol gan anelu'n gyson tuag at sicrhau rhagoriaeth sefydliadol. 3.5.3.10.40 arwain ar gydymffurfiaeth o ran lechyd a Diogelwch ac fel aelod o'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth, cyfrannu at strategaethau a datblygiadau mewn perthynas â Chymunedau Diogelach; 3.5.3.10.41 fel aelod o'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth sicrhau fod arweinyddiaeth Gorfforaethol yn effeithiol a bod gwasanaethau cyfreithiol, cyllidol ac adnoddau dynol yn cydymffurfio â safonau cyrff rheoleiddio Cymru a'r DU.

		<p>3.5.3.10.42 gweithredu fel llysgennad arweiniol y Cyngor drwy gynrychioli a hyrwyddo'r ardal ar lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol a chodi proffil yr Ynys a datblygu cydweithrediad gyda phartneriaid allanol gan gynnwys Cyngorau Tref a Chymuned</p>
Pennaeth Gwasanaeth (Prifffyrdd, Gwastraff ac Eiddo)	Pennaeth Gwasanaeth: Prifffyrdd, Gwastraff ac Eiddo	<ul style="list-style-type: none"> Newid teitl (rhywfaint) yn unol â'r swydd ddisgrifiad ac i sicrhau cysondeb yn fformat teitlau swyddi ar gyfer pawb o fewn yr un swyddi
Pennaeth Gwasanaeth (Tai)	Pennaeth Gwasanaeth: Tai	<ul style="list-style-type: none"> Newid tetil (rhywfaint) yn unol efo'r swydd ddisgrifiad ac i sicrhau cysondeb yn fformat teitlau swyddi ar gyfer pawb sydd â'r un rôl o ran swyddi
Pennaeth Gwasanaeth (Dysgu)	Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc	<ul style="list-style-type: none"> Newid teitl (O Bennaeth i Gyfarwyddwr) Newid cylch gorchwyl cyfredol y rôl i gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> 3.5.3.13.1 Darparu arweinyddiaeth ar draws yr holl agweddau ar waith y Gwasanaeth. Mae hyn yn cynnwys <u>arwain ar hyrwyddo hawliau plant, cydlynu trefniadau i wella sgiliau, llesiant a gwydnwch pobl ifanc, cydweithio ac integreiddio; gweithio gydag amrediad o bartneriaid er mwyn sicrhau fod sgiliau'n cael eu datblygu'n effeithiol ar bob lefel, e.e. cyn-ysgol, ysgolion, colegau, prifysgolion a darparwyr hyfforddiant, Cyngorau Tref a Chymuned, i wella safonau a chanlyniadau ar gyfer yr holl ddysgwyr; gwasanaethau arbenigol ac ataliol; sicrhau bod rhaglenni cyfalaf a grantiau yn gyson â chynlluniau cyflawni'r gwasanaeth a'r gorfforaeth, a datblygu dysgu gydol oes ar draws llyfrgelloedd, amgueddfeydd ac archifau (nid yw'r rhestr yn holl-gynhwysol)</u> Chwe chymal newydd wedi eu mewnbynnu er mwyn adlewyrchu'r cyfrifoldebau ychwanegol fel Cyfarwyddwr (yn unol â'r swydd ddisgrifiad) ac er mwyn sicrhau cysondeb efo eraill ar lefel Cyfarwyddwr: <ul style="list-style-type: none"> 3.5.3.13.60 ymarfer y swyddogaethau fel aelod o'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth gan ddarparu arweinyddiaeth, gweledigaeth a chyfeiriad strategol i'r Cyngor er mwyn cyflawni blaenoriaethau ac amcanion corfforaethol y Cyngor ac arwain ar Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc 3.5.3.13.61 gweithredu fel yr aelod cyswllt o'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth gyda gwasanaethau penodol (a all amrywio o dro i dro) er mwyn darparu her, cymorth mentora ac, yn y pen draw, rheoli perfformiad i Benaethiaid Gwasanaeth gan gynnwys y defnydd o adnoddau, aliniad y cynllun gwasanaeth ac amcanion gyda blaenoriaethau corfforaethol gan anelu'n gyson tuag at sicrhau rhagoriaeth sefydliadol. 3.5.3.13.62 gweithio gyda'r Bwrdd Diogelu Plant er mwyn sicrhau fod yr holl gyfrifoldebau a disgwyliadau'n cael eu diwallu'n llawn ac er mwyn cyfrannu at strategaethau a datblygiadau mewn perthynas â Chymunedau Diogelach 3.5.3.13.63 fel aelod o'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth sicrhau fod arweinyddiaeth Gorfforaethol yn effeithiol a bod gwasanaethau cyfreithiol, cyllidol ac adnoddau dynol yn cydymffurfio â safonau cyrff rheoleiddio Cymru a'r DU. 3.5.3.13.64 arwain ar sefydlu perthnasau gweithio cryf gyda darparwyr addysgol eraill gan gynnwys blynyddoedd cynnar, addysg bellach ac uwch, darparwyr hyfforddiant (nid yw'r rhestr hon yn holl-gynhwysol) 3.5.3.13.65 gyrru'r strategaeth gorfforaethol ar gyfer moderneiddio ysgolion a'r rheoli newid yn y Gwasanaeth 3.5.3.13.66 gweithredu fel llysgennad arweiniol ar gyfer y Cyngor drwy gynrychioli a hyrwyddo'r Awdurdod ar lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol a chodi proffil yr Ynys a gweithio gydag amrediad o bartneriaid gan gynnwys Cyngorau Tref a Chymuned er mwyn gwella llesiant a gwydnwch personol pobl ifanc

This page is intentionally left blank